
Cyngor Chwaraeon Cymru

# Adroddiad Blynyddol
2003/4

# RHAN 1
## Cyfrifon a Chynllun Corfforaethol




The Sports Council for Wales
Cyngor Chwaraeon Cymru
Lottery Funded
Ariennir gan y Loteri

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Cyngor Chwaraeon Cymru yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a hybu chwaraeon a ffyrdd o fyw egnïol. Ef yw prif gynghorwr Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch materion yn ymwneud â chwaraeon ac mae'n gyfrifol am ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol i chwaraeon yng Nghymru.

Pedwar prif nod Cyngor Chwaraeon Cymru yw:

- sicrhau mwy o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol;
- codi safonau perfformio a rhagoriaeth;
- gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau chwaraeon;
- darparu gwybodaeth a chyngor technegol ynghylch chwaraeon, hamdden a ffyrdd o fyw egnïol.

Cyflwynir yr adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2003 i 31 Mawrth 2004. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ar wahân am ddosbarthu arian y loteri yn ystod yr un cyfnod, ynghyd â chrynodeb o'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod o 2005/6 tan 2007/8.

Mae'r Cyngor yn gobeithio cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon, 'Dringo'n Uwch'. Mae'n cyd-fynd yn llwyr â gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer creu cenedl egnïol sy'n mwynhau chwaraeon, sef:

- Mae'n rhaid i Gymru fod yn fwy egnïol yn gorfforol er mwyn bod yn genedl iachach;
- Mae'n rhaid i Gymru gael dinasyddion iach er mwyn sicrhau ffyniant hirdymor;
- Mae'n rhaid i Gymru wneud yn fawr o'r berthynas rhwng chwaraeon, hamdden gorfforol a'r amgylchedd naturiol;
- Mae'n rhaid i Gymru gael pobl sy'n deall gweithgarwch corfforol yn well;
- Mae Cymru angen cymunedau mwy egnïol yn gorfforol;
- Mae'n rhaid i Gymru gael llwyddiant systematig a chynaladwy yn y chwaraeon sy'n cyfrif fwyaf i ni.

Cyhoeddir fframwaith strategol newydd, yn manylu ynghylch sut fydd y Cyngor yn cyfrannu at 'Dringo'n Uwch', yn 2005.

THE SPORTS COUNCIL FOR WALES
CYNGOR CHWARAEON CYMRU
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Cynllun: VWD Design Associates





## AELODAU 2003/4

**Cadeirydd**

Mr Gareth Davies (ymddiswyddodd 24/9/03)
Mr Philip Carling (penodwyd 1/2/04)

**Is-Gadeirydd**

Miss Anne Ellis MBE
(Cadeirydd Dros Dro 25/9/03 – 31/1/04)

**Aelodau**

Mr David Davies
Mr Lynn Davies MBE
Y Cynghorydd Keith Evans
Mrs Christine Gittoes
Mr Ieuan Lewis
Mr Philip Lloyd Jones
Dr Sue Noake
Mr Clive Thomas
Mr Huw Thomas
Ms Susan Williams

**Aelod Cyfetholedig**

Mr D Robert Turner

**Tîm yr Uwch-Reolwyr**

*Prif Weithredwr*
Dr Huw Jones
*Cyfarwyddwr y Datblygiad Corfforedig*
Mr Brian Goffee
*Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Datblygu Cenedlaethol*
Mr Graham Davies
*Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Datblygu Lleol*
Mrs Sara Butlin
*Y Cyfarwyddwr Cyllid*
Mr Geraint Morgan (ymddiswyddodd 30/6/03)
*Pennaeth Cyllid*
Mr Chris James (penodwyd 8/9/03)

**Y Pencadlys**

Cyngor Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd CF11 9SW

Ffôn: 029 2030 0500
Ffacs: 029 2030 0600
E-bost: scw@scw.co.uk
Gwefan: www.cyngor-chwaraeon-cymru.co.uk

## CYNNWYS

**Adroddiad Blynyddol 2003/4**

| | |
|---|---|
| Datganiad y Cadeirydd | 2 |
| Cyflwyno'r Agenda Newydd – Cymru Iachach, Fwy Egnïol | 5 |
| Creu cyfleoedd newydd ar gyfer Cymryd Rhan | 9 |
| Cymunedau Gweithredol – Targedu'r Ardaloedd gyda'r Angen Mwyaf | 13 |
| Cyllid ar Lefel Gyffredin i Chwaraeon | 15 |
| Sportsmatch Cymru | 19 |
| Cenedl Chwaraeon Lwyddiannus | 21 |
| Darparu Cyfleusterau o Safon y Byd | 25 |
| Chwaraeon i Bawb | 33 |

**Uchafbwyntiau Cyfrifon 2003/4**

| | |
|---|---|
| Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru | 40 |
| Datganiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru i Gyngor Chwaraeon Cymru | 42 |
| Crynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfnerthedig ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2004 | 43 |
| Crynodeb o'r Fantolen Gyfnerthedig fel ar 31 Mawrth 2004 | 44 |
| Crynodeb o'r Ddalen Llif Arian Gyfnerthedig fel ar 31 Mawrth 2004 | 44 |
| Cyngor Chwaraeon Cymru – Cyfrif Dosbarthu'r Loteri (SPORTLOT) | 45 |
| Aelodau Panelau SPORTLOT | 47 |
| Archwilwyr | 48 |
| Crynodeb o'r Cyfrif Incwm a Gwariant ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2004 | 49 |
| Crynodeb o'r Fantolen fel ar 31 Mawrth 2004 | 50 |
| Crynodeb o'r Datganiad Llif Arian ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2004 | 51 |

# DATGANIAD Y CADEIRYDD



**"Mae chwaraeon yn rhan bwysig o'r ffordd yr ydym yn ein diffinio ein hunain, yn bersonol ac fel cenedl. Dylid edrych ar chwaraeon fel buddsoddiad yn hytrach na gwariant os am symud o'r cyrion i ganol y cae, a'u gweld fel arf pwerus ar gyfer Cymru iachach, well." Dyma eiriau Alun Pugh AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon wrth lansio dogfen ymgynghorol 'Dringo'n Uwch' fis Gorffennaf 2003.**

Wedi i mi gael fy mhenodi ar ddechrau'r flwyddyn hon, un o fy apwyntiadau cyntaf oedd mynychu Cynhadledd Chwaraeon gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru, y gynhadledd gyntaf o'i bath yn unrhyw le rwy'n credu. Roedd yn achlysur hynod lwyddiannus gan ddod ag amrywiaeth eang o unigolion gyda diddordeb mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol ac iechyd at ei gilydd am y tro cyntaf.

Nid oes unrhyw amheuaeth y bydd y strategaeth 'Dringo'n Uwch', sy'n datblygu o broses ymgynghorol fanwl, yn cael effaith sylweddol ar fwy na dim ond chwaraeon cymunedol. Mae'n ddatganiad eglur o weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru iachach a'r rôl y gall chwaraeon a hamdden gorfforol ei chwarae wrth gyfrannu at y weledigaeth honno. Ond mae'r darlun go iawn yn ehangach fyth hyd yn oed. Mae chwaraeon yn cael ei gydnabod yn awr fel arf pwysig sy'n cyfrannu at gynnwys pobl yn gymdeithasol, at adfywio cymunedau, at ostwng lefelau troseddu ac at well cyflawniadau addysgol.

Bydd y strategaeth newydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer rhaglenni'r Cyngor yn y dyfodol ac ar gyfer neilltuo ei adnoddau. Yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, bydd yn dylanwadu ar arddull a strwythur ein gwaith cynllunio corfforaethol a'n ceisiadau am gefnogaeth ychwanegol.

Hefyd, rydym yn gweithredu argymhellion yr Adolygiad Bob Pum Mlynedd ac yn cynnwys yr egwyddorion hynny yn ein gwaith. Bydd adfocatiaeth, marchnata a chryfhau ein rôl ddatblygu'n themâu allweddol yn y dyfodol agos.

Mae gennym sylfaen gref ar gyfer adeiladu arni. Mae ein prif raglenni, fel Campau'r Ddraig, Chwaraeon Anabledd Cymru, AGChY, y Gist Gymunedol ac Élite Cymru, i gyd yn uchel eu parch ymhlith ein partneriaid a'n cysylltiadau. Mae mwy o bobl ieuainc yn cymryd rhan mewn chwaraeon nag erioed o'r blaen, boed ar ôl ysgol neu fel aelod o glwb chwaraeon. Rydym wedi gweithio'n galed er mwyn ceisio dileu'r bwlch sy'n bodoli rhwng bechgyn a genethod oed cynradd ac wedi sicrhau rhyw faint o gynnydd wrth geisio cau'r bwlch rhwng y rhywiau ymhlith disgyblion uwchradd ac oedolion hefyd. Mae'n amlwg, fodd bynnag, bod llawer o waith i'w wneud eto. Ar hyn o bryd, nid yw mwyafrif helaeth y boblogaeth yn cymryd rhan mewn digon o weithgarwch corfforol i gadw'n iach.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi mynd i'r afael â chydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynnwys yn gymdeithasol. Mae ein gwaith ar gydraddoldeb hiliol yn parhau'n gymharol newydd a byddwn yn rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Mae rhoi lle blaenllaw i'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth i ni ac mae ein strategaeth wedi derbyn cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.





Ar lefel genedlaethol, rhoddwyd blaenoriaeth i ddiwygio a moderneiddio cyrff rheoli chwaraeon. Mae'n bwysig bod cyrff sy'n derbyn arian cyhoeddus yn gallu bod yn atebol am ddefnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o'r arian hwnnw. Er hynny, rydym yn ymwybodol iawn hefyd o'r baich rydym yn ei roi ar gyrff gwirfoddol. Mae pobl yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i wella eu camp, nid i weithredu prosesau biwrocrataidd ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae sicrhau cydbwysedd priodol yn her barhaus i'r Cyngor.

Y prif ddatblygiad cyfalaf eleni oedd Felodrom Cenedlaethol Cymru yng Nghasnewydd. Wedi derbyn cyllid gan y loteri, mae hwn yn gyfleuster o'r safon uchaf ac mae'n helpu i ddenu cystadlaethau o'r safon uchaf i Gymru.

Mae'n werth crybwyll nifer o ystadegau pwysig:

- Mae cyfanswm o 1032 o ysgolion cynradd yn rhan o gynllun Campau'r Ddraig yn awr a chymerodd 73,000 o blant ran ynddo y llynedd;
- Cymerodd dros 10,000 o bobl ran yng nghynllun Chwaraeon Anabledd Cymru, gyda bron i 2,500 ohonynt yn aelodau newydd o glybiau;
- Gyda chyllid y Gist Gymunedol llwyddodd mwy na 3,200 o hyfforddwyr i dderbyn hyfforddiant a derbyniodd 30,000 o gyfranogwyr gyfleoedd chwaraeon;
- Sefydlwyd 30 o Ganolfannau Datblygu newydd fel rhan o'r prosiect AG a Chwaraeon Ysgol;
- Roedd gan y ddwy ganolfan genedlaethol gofnodion rhagorol am berfformiadau ariannol, a sicrhaodd Athrofa Chwaraeon Cymru sgôr ansawdd QUEST sy'n ei gosod ymhlith 5% uchaf canolfannau'r DG. Cyfrannodd Plas Menai at gael dau forwr o Gymru'n bencampwyr iau a ieuenctid y byd.

Gyda 'Dringo'n Uwch' yn cynnig rôl fwy allweddol i'r Cyngor, roedd yn fraint cael fy mhenodi'n Gadeirydd newydd y Cyngor ar adeg mor bwysig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dangos bod ganddi ymrwymiad cryf i chwaraeon a hamdden gorfforol a'r rôl ganolog y gallant eu chwarae ym mywyd y genedl. Mae gan aelodau'r Cyngor a'i staff gyfoeth o brofiad yn y meysydd hyn ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda'r Gweinidog a chyda Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn bwrw ymlaen â'r strategaeth newydd.

Wrth gloi, hoffwn ddiolch i Anne Ellis am sefyll mor fedrus yn y bwlch yn y cyfnod cyn fy mhenodi, ac am ei chymorth sylweddol ers hynny. Hoffwn ddiolch yn gynnes hefyd i holl aelodau'r Cyngor ac i Dr Huw Jones a'i dîm o Uwch-Reolwyr am eu cymorth a'u cefnogaeth ac am eu brwdfrydedd wrth wynebu'r agenda newydd. Mae cefnogaeth swyddogion yr Uned Bolisi Chwaraeon yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn amhrisiadwy hefyd, ac mae holl staff y Cyngor wedi bod yn hynod groesawgar a chalonogol.



Phil Carling
*Cadeirydd*



tudiaeth hos

## IEUENCTID KPC

“ROEDDWN I EISIAU GWNEUD RHYWBETH YN Y GYMUNED A FYDDAI’N DENU’R BOBL IEUAINC ODDI AR Y STRYD AC YN RHOI RHYWLE IDDYNT FYND.”

*Helena Parobij*

Cefnogwyd Ieuenctid KPC gan Gyngor Chwaraeon Cymru i ddal ati gyda’r gwaith ffantastig mae’n ei wneud gyda phobl ieuainc mewn ardal ychydig y tu allan i Ben-y-bont ar Ogwr. Sefydlodd Helena Parobij, cydlynydd prosiect y sefydliad, y grŵp ieuenctid wedi marwolaeth ei mab yn 1997. Ers hynny mae’r cyllid wedi galluogi Ieuenctid KPC i ychwanegu cyfleusterau fel cwrt pêl rwyd a phêl fasged, cae gyda llifoleuadau ar gyfer pêl droed 5-bob-ochr a pharc sglefrio at ei ddarpariaeth.

"Roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth yn y gymuned a fyddai’n denu’r bobl ieuainc oddi ar y stryd ac yn rhoi rhywle iddynt fynd," meddai Helena. "Fe enillon ni’r hawl i brydlesu tir diffaith a chyda chymorth a rhoddion gan y gymuned leol, llwyddwyd i sefydlu Ieuenctid KPC.

"Nawr mae gennym 740 o aelodau rhwng wyth a 25 oed; chwech o weithwyr ieuenctid a nifer o staff gwirfoddol felly mae arian y Loteri’n hanfodol i ni. Oni bai am yr arian hwn fydden ni ddim yma," medd Helena.

Mae Ieuenctid KPC yn enghraifft o brosiect aml-asiantaeth mewn ardal a gydnabyddir fel ardal ddifreintiedig iawn yn gymdeithasol ac yn economaidd, gyda diffyg cyfleusterau hamdden fforddiadwy.



# CYFLWYNO’R AGENDA NEWYDD – CYMRU IACHACH, FWY EGNÏOL



“MAE CHWARAEON YN RHAN BWYSIG O’R FFORDD YR YDYM YN EIN DIFFINIO EIN HUNAIN, YN BERSONOL AC FEL CENEDL. DYLID EDRYCH AR CHWARAEON FEL BUDDSODDIAD YN HYTRACH NA GWARIANT OS AM SYMUD O’R CYRION I GANOL Y CAE, A’U GWELD FEL ARF PWERUS AR GYFER CYMRU IACHACH, WELL.”

*Alun Pugh AC, Y Gweinidog dros Ddiwylliant, yr Iaith Gymraeg a Chwaraeon*
*‘Dringo’n Uwch’ – Gorffennaf 2003*

Mae mwy o bobl yng Nghymru’n cymryd rhan mewn chwaraeon nag erioed o’r blaen, gyda 57% o’r boblogaeth yn cymryd rhan mewn camp gydnabyddedig. Er hynny, mae llawer o waith i’w wneud eto ac er mwyn cyfrannu at Gymru iachach, fwy egnïol, mae Cyngor Chwaraeon Cymru yn:

- annog cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol drwy newid y ffordd y mae pobl yn meddwl ac yn gweithredu;
- helpu pobl i fod yn fwy cyffyrddus gyda gweithgarwch corfforol a sicrhau bod ganddynt ddisgwyliadau uwch o safbwynt y potensial i lwyddo;
- annog unigolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am hwyl ac i gadw’n iach, ac er mwyn cael llwyddiant yn y byd chwaraeon;
- sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ddarparu’r is-strwythur corfforol a’r adnoddau dynol priodol.

### Sut hwyl rydym yn ei gael arni?

Cydnabyddir yn eang mai dim ond drwy gyflwyno plant i’r amrywiaeth ehangaf posibl o chwaraeon o oed cynnar y mae datblygu arfer oes o gymryd rhan mewn chwaraeon. Mae pobl ieuainc yn ganolog i waith Cyngor Chwaraeon Cymru ac yn y pen draw bydd annog mwy o bobl ieuainc i fod yn egnïol ac i ddal ati i fod yn egnïol yn creu Cymru iachach.

- Mae'r cyfraddau cymryd rhan cyffredinol yn 57% ar hyn o bryd. Er hynny, ceir amrywiaethau rhanbarthol eang o hyd. Yn y Gogledd Gwledig mae'r lefelau cymryd rhan uchaf mewn o leiaf un gweithgaredd ymhlith oedolion, yn 69%, ond ceir gostyngiad sylweddol i 45% yn y Cymoedd;
- Yn galonogol, mae'r duedd hirdymor yn awgrymu bod y bwlch rhwng cyfranogiad y dynion a'r merched mewn chwaraeon yn araf gau. Mae 63% o ddynion wedi cymryd rhan mewn o leiaf un gweithgaredd, o'i gymharu â 51% o ferched;
- Mae 72% o bobl ieuainc wedi cymryd rhan mewn camp allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r cyfraddau'n uwch yng ngwaelod y blynyddoedd ysgol. Wrth i'r disgyblion fynd yn hŷn maent yn llai tebygol o fod yn cymryd rhan. Wrth ystyried y cyfranogiad mewn gweithgareddau clwb, mae'r patrwm hwn yn amlwg eto, ond yn llai nodedig. Yn gyffredinol, mae 73% o bobl ieuainc wedi cymryd rhan mewn rhyw weithgaredd clwb yn ystod y flwyddyn ddiwethaf;
- Mae 80% o blant 7-11 oed wedi cymryd rhan mewn camp allgyrsiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ôl yr arolwg diweddaraf a gynhaliwyd yn 2002. Roedd cyfraddau cymryd rhan y genethod wedi codi 4% i 79% a'r bechgyn 1% i 80% fel bod y bwlch rhwng y rhywiau'n ddibwys;
- Credir bod angen ymarfer cymedrol ddwys am o leiaf 30 munud bum gwaith yr wythnos er mwyn hybu a chynnal ffordd o fyw iach dan y canllawiau presennol. Cwblhawyd arolwg 2002/3 yn ddiweddar a dengys y gwaith dadansoddi rhagbrofol ar y lefelau gweithgarwch mai 30% o oedolion Cymru hyd at 65 oed sy'n cymryd rhan ar hyn o bryd mewn digon o ymarfer i fodloni'r canllawiau hyn. Er hynny, dywedodd 16% o'r oedolion nad ydynt byth yn ymarfer am 30 munud.

Heddiw, dim ond 18% o blant sy'n ymarfer digon i fodloni'r canllawiau presennol ar gyfer hybu a chynnal eu hiechyd; awr o ymarfer cymedrol ddwys bob dydd o'r wythnos. Mae plant ar gyfartaledd yn ymarfer yn gymedrol ddwys am awr bedair gwaith yr wythnos. Bydd fframwaith strategol newydd y Cyngor, a gaiff ei lansio yn 2005, yn cynnig atebion er mwyn cynyddu'r ffigwr hwn yn sylweddol.



tudiaeth
hos



## Tân y Ddraig yn Sir y Fflint

**Mae Sir y Fflint yn brolio am lwyddiant cynllun Campau'r Ddraig yn yr ardal – ac mae ganddi le i wneud hynny. Mae pob un o'r 65 o ysgolion cynradd yn y sir yn perthyn i'r rhaglen allgyrsiol bellach, a thair ysgol arbennig.**

Ers lansio'r cynllun yn 2000, mae mwy na 200 o glybiau wedi cael eu sefydlu ac mae mwy na 300 o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio ledled y sir. Mae cydlynydd Campau'r Ddraig yn Sir y Fflint yn hynod falch bod 100% o'r ysgolion cynradd eisoes wedi ymuno â'r cynllun. Gwelwyd y cynnydd mwyaf nodedig yn y byd athletau ac mewn hoci.

Diolch i Gampau'r Ddraig, mae mwy a mwy o ysgolion cynradd yn rhedeg clybiau ar ôl ysgol ac yn gallu gwneud defnydd o offer sylfaenol. Mae sgiliau fel rhedeg, neidio a thaflu yn hanfodol nid yn unig mewn athletau, ond ym mhob camp.



## Chwaraeon Anabledd Cymru – Sefydlu Clwb Boccia

Gêm debyg i Petanque neu Fowlio yw boccia, gyda llawer o bobl anabl ledled y byd yn cymryd rhan ynddi. Er bod modd i unrhyw un ei chwarae, mae mwyafrif y cyfranogwyr yn bobl gyda'u gallu i symud wedi'i gyfyngu, fel pobl gyda pharlys yr ymennydd neu ddystroffi'r cyhyrau.

Drwy gyfrwng Chwaraeon Anabledd Cymru, mae clwb boccia is-ranbarthol newydd ar gyfer pobl gydag anableddau wedi cael ei lansio. Defnyddir y grant i logi cyfleusterau, i dalu ffïoedd hyfforddi, i anfon hyfforddwyr ar gyrsiau i sicrhau cynaladwyedd ac i brynu'r offer sydd ei angen i sefydlu'r clwb.

## Dysgu Gwers i'r Athrawon

Bu tro ar fyd mewn ysgol yn Wrecsam yn ddiweddar pan ddaeth prif hyfforddwr gymnasteg yno ar ymweliad er mwyn dangos i'r athrawon sut i gyflwyno dosbarth gymnasteg.

Aeth Mitch Fenner – sydd hefyd yn sylwebydd gyda'r BBC – i Ysgol Rhiwabon ac yn fuan iawn roedd yr athrawon yn brysur yn gwneud campau gymnasteg.

Amcan y cwrs oedd rhoi hwb i hyder yr athrawon, fel eu bod yn gallu cyflwyno gymnasteg yn yr ysgol ac, yn y pen draw, codi safonau'r plant sy'n cymryd rhan mewn AG. Mae'r prosiect yn rhan o'r rhaglen AG a Chwaraeon Ysgol a reolir gan Gyngor Chwaraeon Cymru a'i chyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae swyddog wedi cael ei benodi ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru i wella'r gwaith o gyflwyno AG, gan ei wneud yn fwy dyfeisgar ac annog ysgolion a cholegau i weithio ar y cyd a rhannu adnoddau.

# CREU CYFLEOEDD NEWYDD AR GYFER CYMRYD RHAN



## Campau'r Ddraig

Amcan Campau'r Ddraig yw sicrhau mwy o gyfranogiad allgyrsiol a mwy o aelodaeth o glybiau chwaraeon ymhlith plant 7-11 oed. Hefyd, mae'r cynllun yn ceisio sicrhau cynnydd yn nifer y rhieni a'r gwirfoddolwyr sydd ar gael i helpu gyda chynnal gweithgareddau chwaraeon. Ceir dau ar hugain o gydlynwyr sy'n cyflwyno'r cynllun ledled Cymru a gellir gweld effaith hynny'n glir.

- Mae Campau'r Ddraig yn adeiladu ar ei arfer dda a'i lwyddiant hyd yma ac yn parhau i gyrraedd mwy a mwy o ysgolion a phlant ieuainc;
- Mae cyfanswm o 1,032 o ysgolion yn rhan o'r cynllun yn awr a chymerodd 73,000 o blant ran y llynedd;
- Mae'r cynllun yn parhau i gael ei ganmol gan bawb fel un o fentrau mwyaf llwyddiannus y Cyngor;
- Mae 240 o glybiau cymunedol wedi ymuno â Champau'r Ddraig;
- Mae mwy na 1,500 o athrawon a 1,200 o rieni / gwirfoddolwyr wedi cael eu hyfforddi i gyflwyno rhaglenni Campau'r Ddraig.

## Chwaraeon Anabledd Cymru

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n cefnogi Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru i reoli Chwaraeon Anabledd Cymru, cynllun datblygu sy'n ceisio creu a / neu ddatblygu clybiau newydd a phresennol i sicrhau mwy o gymryd rhan ymhlith pobl anabl. Sicrhawyd bod cyllid ar gael i bob un o'r 22 awdurdod lleol ar gyfer cyflogi swyddog datblygu rhan-amser i sefydlu cynllun clwb ar lefel gymunedol. Mae'r cynllun hwn yn parhau i gyflwyno canlyniadau hynod lwyddiannus, gan ragori ar y targedau yn gyson ac arwain at nifer cynyddol o glybiau, arweinwyr a gwirfoddolwyr a chynnydd o ganlyniad mewn cyfleoedd. Ymhlith y llwyddiannau allweddol mae:

- sefydlu 49 o gynlluniau datblygu clwb newydd;
- recriwtio 166 o hyfforddwyr newydd a 353 o wirfoddolwyr newydd;
- 10,620 o gyfranogwyr newydd a 2,484 o aelodau gweithredol o glybiau chwaraeon;
- 48 o gystadlaethau newydd.

10

## AG a Chwaraeon Ysgol

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi derbyn y cyfrifoldeb am weithredu Cynllun Gweithredu AG a Chwaraeon Ysgol (AGChY) Llywodraeth y Cynulliad Cymreig ar gyfer Cymru. Nod AGChY yw gwella'r ddarpariaeth o chwaraeon ysgol drwy gyfrwng partneriaethau proactif gydag awdurdodau lleol. Cynghorir y Cyngor gan ei Bwyllgor Ymgynghorol ar gyfer AG a Chwaraeon Ysgol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o BAALPE, ESTYN, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cymru ar gyfer Chwaraeon Ysgol, Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon ac ACCAC. Mae'r ysgolion yn elwa o fod yn rhan o raglen genedlaethol gyda phroffil uchel a chyfeiriad eglur er mwyn esgor ar newid.

- Ar hyn o bryd mae 30 o Ganolfannau Datblygu AGChY wedi'u sefydlu ac mae cydlynwyr wedi'u cyflogi ym mhob awdurdod lleol;
- Penodwyd 22 o gydlynwyr AGChY ynghyd â phedwar swyddog cefnogi drwy gyfrwng sefydliadau addysg uwch;
- Penodwyd ymgynghorwyr i baratoi cynlluniau ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Chyrsiau Ymarfer Dysgu.





tudiaeth
hos




## Rhaglen 'Heini a Hip'

Gyda chymorth cyllid gan Gyngor Chwaraeon Cymru, datblygwyd rhaglen 'Heini a Hip' gan adran Gwasanaethau Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-Nedd Port Talbot. Y nod oedd rhoi sylw i nifer o bryderon ynghylch y ddarpariaeth chwaraeon yn y Fwrdeistref Sirol ac, yn arbennig, y cyfleoedd prin a'r lefelau cymryd rhan isel gan ferched, ac effaith hynny ar eu hiechyd.

Yn targedu genethod ifanc 13-17 oed, mae'r prosiect yn tynnu sylw at fanteision cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden drwy gyflwyno sesiynau blasu mewn ysgolion uwchradd a chlybiau ieuenctid. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau, yn cynnwys pêl droed i enethod, hyfforddiant tenis, 'fit2dance', cadw'n heini ac iach, polo dŵr a badminton.

Hefyd, mae'r Awdurdod yn ymgynghori â'i aelodau er mwyn canfod unrhyw weithgareddau eraill yr hoffent gymryd rhan ynddynt ac maent yn eu cyfeirio at y ddarpariaeth agosaf neu, os oes digon o alw, yn darparu sesiynau ychwanegol. Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda phum cant o enethod 13-17 oed yn aelodau o'r rhaglen.



## Clwb Jiwdo Kanokwai

Sefydlwyd Clwb Jiwdo Kanokwai yng Nghanolfan Gymunedol West Cross, Y Mwmbwls, gan ddwy eneth ifanc am eu bod yn teimlo bod y ddarpariaeth ar gyfer jiwdo yn yr ardal yn wan. Gwnaed cais am gyllid gan y Gist Gymunedol ar gyfer y costau sefydlu allweddol, i brynu siwtiau jiwdo newydd ac i dalu ffïoedd addysgu hyfforddwyr i sicrhau cynaladwyedd. Mae'r clwb yn mynd o nerth i nerth yn awr ac yn darparu amrywiaeth llwyddiannus o weithgareddau i'r gymuned.

## Clwb Pêl Fasged Celtiaid Caergybi

Derbyniodd y Clwb grant loteri i gyflogi swyddog datblygu pêl fasged rhan-amser. Mae llwyddiant y fenter hon yn siarad drosto'i hun. Wedi tair blynedd mae 300 o bobl ieuainc yn chwarae pêl fasged yn rheolaidd ar Ynys Môn a cheir 10 o glybiau newydd ac 20 o hyfforddwyr newydd bellach.

Mae wyth o enethod a dau o fechgyn wedi cael eu dewis ar gyfer tîm D16 Cymru ac mae dwy o enethod yn Nhîm Hŷn Cymru. Gwnaed buddsoddiad pellach i osod pyst awyr agored mewn lleoliadau allweddol ledled yr ynys.

# CYMUNEDAU GWEITHREDOL – TARGEDU'R ARDALOEDD GYDA'R ANGEN MWYAF



Nodweddir sawl ardal yng Nghymru gan bocedi mawr o gyni cymdeithasol ac economaidd. Mae'r rhain yn ardaloedd glofaol De a Gogledd Ddwyrain Cymru yn bennaf ac mewn ardaloedd lle mae'r diwydiannau traddodiadol, ee, dur, glo a llechi, wedi diflannu. Yn 1999 sefydlodd Cyngor Chwaraeon Cymru'r fenter Cynnwys yn Gymdeithasol drwy Chwaraeon i dargedu'r ardaloedd hyn. Amcan y fenter hon yw annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau sy'n gwella'n sylweddol y cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael ar gyfer cymunedau a grwpiau lleol sydd wedi'u heithrio. Mae'n rhaid i'r prosiectau fod wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd wedi'u cydnabod fel ardaloedd gyda chyni sylweddol.

Ni cheir unrhyw ganllawiau pendant ynghylch uchafswm y cyllid i'w ddyfarnu. Mabwysiedir dull hyblyg o weithredu, yn cynnwys pecynnau cyfalaf a refeniw a chefnogaeth ar gyfer gwaith paratoi dechreuol a chostau datblygu; yn dibynnu i gyd ar sicrwydd o gynaladwyaeth hirdymor.

Argymhellodd y Fforwm Cynnwys yn Gymdeithasol bod y gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar yr ardaloedd blaenoriaeth a ganlyn:

- Gogledd Gwynedd
- Rhondda Cynon Taf
- Caerffili
- De Llanelli yn Sir Gaerfyrddin
- Cwm Afan Uchaf yng Nghastell-nedd Port Talbot



tudiaeth
hos

## Clwb Pêl Droed Merched Llanidloes

Gwnaeth clwb y merched hŷn gais am gyllid i sefydlu tîm genethod D14 am nad oedd ganddynt unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gofynion y genethod ieuainc hyn.

Derbyniwyd grant gwerth £750 gan y Gist Gymunedol i brynu'r offer oedd ei angen i sefydlu'r tîm ac i anfon aelodau ar gyrsiau addysgu hyfforddwyr er mwyn sicrhau datblygiad a chynaladwyedd. Wedi i'r cynllun hwn brofi'n llwyddiannus, gwnaeth y clwb gais am ail grant i sefydlu tîm genethod D12 i gyd-fynd â'r tîm D14, gyda'r amcan o roi'r ddau dîm i gystadlu yn y cynghreiriau D12 a D14 newydd. Gyda'r ail grant o £697 llwyddodd y clwb i brynu cit pêl droed ar gyfer y tîm D14. Nid oedd hwn wedi'i gynnwys yn y cynllun cyntaf.

## Cymdeithas Gymunedol Gorllewin y Rhyl

Derbyniodd y Gymdeithas grant gan y Fforwm Cynnwys tuag at gyflogi gweithiwr datblygu chwaraeon i annog y defnydd o fan gemau aml-ddefnydd newydd yn Rhodfa Gordon, Y Rhyl.

Profodd y flwyddyn gyntaf yn llwyddiant mawr gyda'r bechgyn a'r genethod lleol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn pêl droed, pêl fasged a hoci mewnlinell. Yn ogystal â threfnu'r gweithgareddau mae'r gweithiwr datblygu'n cefnogi saith cynorthwy-ydd gwirfoddol a bydd rhai o'r rhain yn cymhwyso fel hyfforddwyr yn fuan iawn gobeithio.

Mae gwaith ar droed ar gyfer Blwyddyn 2 y prosiect a bydd yn ehangu i gynnwys golff, beicio a thenis drwy greu cysylltiadau gyda chlybiau cymunedol lleol.





## Duwiesau Dawnsio Dragonheart

Efallai fod Dragonheart – grŵp pop addawol o Gymru ag ynddo bedair o ferched ifanc – yn gallu brolio teithio gyda sêr fel Blue, Busted ac Atomic Kitten ond mae'r aelodau wedi dweud bod arwain cynllun dawnsio aerobig cyntaf Genethod yn Gyntaf yn uchel iawn ar eu rhestr o uchafbwyntiau yn ystod eu blwyddyn ddiwethaf brysur. Mae'r fenter Genethod yn Gyntaf wedi rhoi cyllid i ysgolion uwchradd Cymru fel eu bod yn gallu darparu gweithgaredd allgyrsiol newydd i enethod i'w cadw'n heini ac iach. Roedd Uned Ddatblygu Chwaraeon Caerffili ymhlith y cyntaf i fanteisio'n llawn ar y cyllid sydd ar gael drwy weithio gyda Music Wales a'r ysgolion lleol i ddatblygu clybiau dawnsio aerobig ar ôl ysgol.

Mae'r cynllun wedi mynd o nerth i nerth yn y dref ers ei sefydlu ddechrau Tachwedd 2003 gyda 750 o ferched 7-17 oed o wyth ysgol wahanol wedi ymuno â Dragonheart yn y sesiynau dawns egnïol, sy'n profi pa mor heini sydd raid i chi fod i fod mewn grŵp pop.



# CYLLID AR LEFEL GYFFREDIN I CHWARAEON



## Cyfalaf SPORTLOT

Mae Cyfalaf SPORTLOT yn defnyddio arian y loteri i wella cyfleusterau ar lefel leol a chenedlaethol. Yn cefnogi ac yn sail i waith y rhaglen ddatblygu, mae'r cyllid cyfalaf wedi darparu llawer o gyfleusterau newydd a gwell yng Nghymru ac mae'r Cyngor wedi defnyddio'r cynllun yn strategol i dargedu'r ardaloedd gyda'r angen mwyaf. Yr egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r gweithredoedd dosbarthu arian ar gyfer prosiectau cyfalaf yw sicrhau:

- budd parhaol a'r budd gorau posibl o safbwynt chwaraeon a datblygiadau cymunedol;
- gwerth am arian;
- manteision i'r ardaloedd a'r prosiectau hynny sydd wedi'u harenwi fel yr ardaloedd gyda'r angen mwyaf o safbwynt hamdden, chwaraeon ac arian.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyllid Cyfalaf SPORTLOT wedi dyfarnu 54 o grantiau. Ceir rhestr lawn o'r prosiectau a gefnogwyd yn Adran 2 o'r Adroddiad.

## Y Gist Gymunedol

Cynllun grantiau a gyllidir gan y loteri yw'r Gist Gymunedol ac fe'i cyflwynir yn lleol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn cael ei ddisgrifio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel 'model ar gyfer cynlluniau grant bychain', prif ffocws y Gist Gymunedol yw datganoli'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch prosiectau gwerth llai na £750 i lefel leol fel bod y cyllid yn cael ei dargedu at yr ardaloedd gyda'r angen mwyaf. Mae wedi'i lunio'n arbennig i helpu gyda datblygu chwaraeon ar lefel gyffredin, yn arbennig ar gyfer pobl ieuainc, merched a genethod a grwpiau dan anfantais.

Sefydlwyd y cynllun yn Ebrill 1999 a ffurfiwyd pwyllgorau'r Gist Gymunedol ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae pob pwyllgor yn cynnwys rhwng 12 a 15 o aelodau, ac yn eu plith ceir tri chynrychiolydd o'r awdurdod lleol. Mae gweddill y pwyllgor yn cynnwys pobl leol gyda gwybodaeth am chwaraeon yn yr ardal.

Ers ei sefydlu, gwnaed dros 7,000 o gynigion yn dod i gyfanswm o fwy na £4,409,602. Mae hyn wedi bod o fudd i 80 o wahanol chwaraeon.

- Gwnaed 1,615 o ddyfarniadau yn 2003/4, o fudd i 13,703 o ferched a 17,254 o ddynion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon;
- Cefnogwyd 3,234 o hyfforddwyr drwy gyfrwng y cynllun.

Cyngor Chwaraeon Cymru
Adroddiad Blynyddol 2003/4



## Mân-Grantiau

Nod y cynllun hwn yw 'cau'r bwlch' rhwng y Gist Gymunedol a'r cynllun Cyfalaf mwy. Cynigir cefnogaeth i brosiectau sy'n creu cyfleoedd newydd, ychwanegol neu well i gymryd rhan mewn chwaraeon.

- hyd yma, gwnaed 92 o ddyfarniadau'n dod i gyfanswm o £437,145;
- mae nifer y prosiectau gyda'r bwriad o gynnig budd i ferched a genethod wedi bod yn sylweddol, gyda 71% o'r rhai a elwodd o'r prosiectau a gefnogwyd yn ferched;
- gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer yr hyfforddwyr a'r arweinwyr sydd wedi cael eu hyfforddi fel rhan allweddol o'r mân-grantiau a ddyfarnwyd.

## Genethod yn Gyntaf

Yn ceisio cynyddu nifer y genethod mewn ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, mae 'Genethod yn Gyntaf' yn cefnogi prosiectau chwaraeon newydd a dyfeisgar ar gyfer y genethod hyn.

- gwnaeth 173 o ysgolion geisiadau am gyllid ar gyfer datblygu gweithgareddau newydd i 16,520 o enethod gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon amrywiol yn yr ysgol.

## Her y Canolfannau Hamdden

Cynllun dyfeisgar yn cynnig cyfleoedd i ferched a genethod yn y gymuned yw Her y Canolfannau Hamdden. Y nod yw annog rheolwyr canolfannau hamdden i ddarparu cyfleoedd newydd i ferched a genethod gymryd rhan yn eu canolfannau.

- mae 126 o ganolfannau hamdden wedi gwneud cais am gyllid yn ystod y flwyddyn er mwyn datblygu gweithgareddau newydd ar gyfer merched a genethod.



**CYFLAWNIADAU A THARGEDAU AR LEFEL LEOL**

| Menter | 1999/0 | 2000/1 | 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y Datblygiadau Clybiau Iau * | (132) 128 | (132) 163 | (243) 243 | (323) 294 | (388) 356 |
| DP'ion Campau'r Ddraig: Nifer y cynlluniau mewn ysgolion cynradd – nifer y clybiau a sefydlwyd | Amherthnasol | (120) 229 | (350) 593 | (600) 773 | (440) 1509 |
| DP'ion Chwaraeon Anabledd: Nifer y clybiau'n darparu ar gyfer Pobl ag Anableddau (clybiau newydd y flwyddyn) | Amherthnasol | (22) 35 | (30) 37 | (30) 33 | (44) 49 |
| Nifer y CDLl'au | (193) 184 | (165) 173 | (165) 268 | (165) 339 | (339) 330 |
| Nifer y CRhRh'au | (48) 48 | (52) 43 | (52) 104 | (55) 117 | (122) 160 |
| Nifer y cynlluniau a gefnogwyd gan y Gist Gymunedol | Amherthnasol | Amherthnasol | (1200) 1457 | (1200) 1538 | (1200) 1615 |
| Cyfalaf: Ceisiadau y flwyddyn (2002/3 yn cynnwys y RhFG) | (105) 100 | (105) 96 | (110) 153 | (150) 209 | (100) 41 |
| Cyfalaf: Dyfarniadau y flwyddyn (2002/3 yn cynnwys y RhFG) | (82) 66 | (58) 54 | (60) 66 | (40) 75 | (50 rhan 1 a 50 rhan 2) 34 a 54 |
| Y Cynlluniau Cyfalaf a gafodd eu Monitro | Amherthnasol | Amherthnasol | (60) | (35) 32 | (35) 93 |
| Nifer y dyfarniadau Genethod yn Gyntaf i ysgolion y flwyddyn | Amherthnasol | Amherthnasol | (110) 144 | (180) 178 | (190) 173 |

**Allwedd:**
DP'ion = Dangosyddion Perfformiad
CDLl'au = Canolfannau Datblygu Lleol
CRhRh'au = Canolfannau Rhagoriaeth Rhanbarthol
RhFG = Y Rhaglen Fuddsoddi Gymunedol
( ) = Targedau
* Targedau Cronnol





tudiaeth hos

### Tenis Cymru

Lansiodd Tenis Cymru ei Fenter Tenis y Ddinas am y tro cyntaf yn 2003 ac mae'r cynllun wedi profi'n llwyddiant mawr.

Llwyddodd Tenis Cymru i berswadio'r Gymdeithas Denis Lawnt bod angen dybryd am ei raglen Tenis y Ddinas - sydd wedi'i chreu ar gyfer ardaloedd dinesig difreintiedig - yng Nghymoedd De Cymru. Yna datblygodd bartneriaeth gyda Rhondda Cynon Taf i lansio Cynllun Datblygu Tenis y Ddinas o amgylch y tri chlwb a fodolai yn y fwrdeistref eisoes. Sicrhawyd nawdd gan Sunjuice a chafodd ei gyfateb £ am £ gan gynllun Sportsmatch Cymru.

Bydd y rhaglen yn ehangu ac yn cynnwys rhaglen i'r anabl. Hefyd, mae'r awdurdod lleol yn adeiladu ar y gwaith a wneir yn y clybiau gan gynnal rhaglenni ysgolion a fydd yn cysylltu â'r gweithgarwch yn y clybiau.



### Clwb Bechgyn a Genethod Pant a Dowlais

Mae'r clwb mewn ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol ym Merthyr Tudful. Mewn ymgais i gyllido ei weithgareddau amrywiol, a chyda chefnogaeth gan Gynllun Sportsmatch Cymru, maent wedi llwyddo i ddenu saith noddwr gwahanol.

Mae'r clwb wedi cael effaith sylweddol ar yr ardal a llwyddodd i lobïo'r Cyngor lleol i adael iddo reoli adeilad diffaith a gartrefai bwmp dŵr. Codwyd arian i droi'r adeilad hwn yn ganolfan chwaraeon a hamdden gymunedol ffyniannus. Ymhlith ei weithgareddau amrywiol mae gan y Clwb dimau pêl droed a phêl rwyd i fechgyn a genethod o wahanol grwpiau oedran. Mae llawer o aelodau hŷn y clwb wedi mynd ar gyrsiau addysgu hyfforddwyr a bellach maent yn hyfforddi'r aelodau iau.

## SPORTSMATCH CYMRU

Mae **Sportsmatch Cymru**'n darparu cyswllt hanfodol rhwng y sector masnachol a datblygiad chwaraeon ar lefel gyffredin. Mae'r cynllun yn cynnig cefnogaeth i glybiau chwaraeon a chyrff rheoli gyda mentrau sy'n sicrhau mwy o gymryd rhan ar lefel gyffredin drwy gyfateb buddsoddiad y sector preifat '£ am £'.

- Yn ystod 2003/4, cefnogwyd cyfanswm o 131 o brosiectau gyda 25 o chwaraeon unigol yn derbyn £432,175 o gyllideb Sportsmatch Cymru. Prosiectau pêl droed (38 dyfarniad - £136,148), rygbi (9 dyfarniad - £62,450) ac athletau (7 dyfarniad - £40,900) dderbyniodd y nifer uchaf o ddyfarniadau. Talwyd £380,760 mewn grantiau yn erbyn cyllideb ariannol 2003/4 ac addawyd £51,415.50 yn erbyn cyllideb 2004/5.

**DOSBARTHIAD SPORTSMATCH CYMRU, YN ÔL SIR, 2003/4**

| | Nifer y dyfarniadau | Gwerth y dyfarniadau £ | Canran nifer y dyfarniadau | Canran gwerth y dyfarniadau |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1 | 500 | 0.77 | 0.12 |
| Blaenau Gwent | 2 | 1,300 | 1.54 | 0.30 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 3 | 1,500 | 2.31 | 0.35 |
| Caerffili | 6 | 13,709 | 4.61 | 3.19 |
| Caerdydd | 10 | 24,950 | 7.69 | 5.81 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 | 2,500 | 2.31 | 0.58 |
| Ceredigion | 3 | 7,300 | 2.31 | 1.70 |
| Conwy | 2 | 1,600 | 1.54 | 0.37 |
| Sir Ddinbych | 5 | 4,242 | 3.85 | 0.99 |
| Sir y Fflint | 3 | 2,000 | 2.31 | 0.47 |
| Gwynedd | 6 | 7,850 | 4.61 | 1.83 |
| Merthyr Tudful | 7 | 18,660 | 5.38 | 4.34 |
| Sir Fynwy | 2 | 2,000 | 1.54 | 0.47 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 8,000 | 4.61 | 1.86 |
| Casnewydd | 6 | 30,500 | 4.61 | 7.10 |
| Sir Benfro | 12 | 19,489 | 9.16 | 4.51 |
| Powys | 6 | 32,000 | 4.61 | 7.45 |
| Rhondda Cynon Taf | 2 | 16,702 | 1.54 | 3.89 |
| Abertawe | 3 | 7,200 | 2.31 | 1.68 |
| Torfaen | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bro Morgannwg | 6 | 15,270 | 4.61 | 3.55 |
| Wrecsam | 2 | 1,000 | 1.54 | 0.23 |
| Rhanbarthol | 7 | 22,250 | 5.38 | 5.18 |
| Ledled Cymru | 28 | 191,653 | 21.54 | 44.60 |

tudiaeth
hos



Mae **Lloyd Upsdell** wedi bod yn athletwr rhyngwladol er pan yn 15 oed a gwnaeth ei ymddangosiad cyntaf ym mis Awst 1998 a chipio teitl Pencampwr Ewrop yn y 100m a'r 200m.

Enillodd Lloyd ddau fedal aur yng Ngemau Paralympaidd Sydney 2000 yn y 100m a'r 200m ac mae'n dal record y byd yn y ddwy gystadleuaeth.

Yn ymarfer yn Athrofa Chwaraeon Cymru, mae Lloyd wedi elwa o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru ac Élite Cymru.

"GWLAD FECHAN YW CYMRU AC MAE HYNNY'N GOLYGU EI BOD YN GALLU EDRYCH AR ÔL EI HATHLETWYR YN DDA IAWN, AR SAIL BERSONOL, UN-I-UN. NID DIM OND RHIF YDYCH CHI."


*Lloyd Upsdell 2003*

## CENEDL CHWARAEON LWYDDIANNUS

"MAE'N RHAID I GYMRU LWYDDO'N SYSTEMATIG AR Y LEFEL RYNGWLADOL UCHAF, LLE MAE'N CYFRIF FWYAF I BOBL CYMRU."

*'Dringo'n Uwch' – Gorffennaf 2003*

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n hybu rhagoriaeth drwy gefnogi trefniadaeth effeithiol ar gyfer chwaraeon ar bob lefel. Mae hefyd yn ceisio arenwi, meithrin a datblygu unigolion a thimau talentog drwy gyfrwng partneriaethau penodol. Mae chwaraeon Cymru'n gallu codi ysbryd y genedl a sicrhau lle pwysicach iddi ar lwyfan y byd ac mae'r Cyngor ar flaen y gad gyda'r datblygiadau i wella chwaraeon elitaidd yng Nghymru.




### Moderneiddio Cyrff Rheoli

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogi i gynorthwyo Cyrff Rheoli i sicrhau sefydlogrwydd ariannol a threfniadol. Datblygwyd dull newydd o weithredu drwy bartneriaeth wrth gyllido Cyrff Rheoli, gan ddarparu ymrwymiadau cyllido tymor hwy o bedair blynedd a rhoi mwy o berchnogaeth iddynt hwy.

Heriodd y cyhoeddiad gan UK Sport, 'Investing in Change', y Cyrff Rheoli i foderneiddio eu gweithrediadau. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r chwaraeon i ddatblygu cynlluniau gweithredu 'Buddsoddwyr mewn

Newid'. Bydd cyllid o £180,000 gan UK Sport yn cefnogi'r gwaith o reoli'r newid yn y Cyrff Rheoli hyn. Y prif amcan yw i gyrff rheoli gynyddu eu hincwm ac ehangu eu sylfaen o ffynonellau o incwm. Trwy hynny byddant yn dod yn fwy hunangynhaliol ac yn gwella eu gwaith presennol yn sylweddol.

**CYFLAWNIADAU A THARGEDAU AR LEFEL GENEDLAETHOL**

| | 1999/0 | 2000/1 | 2001/2 | 2002/3 | 2003/4 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer staff y CRhC a gefnogir (ac eithrio hyfforddwyr Coach Cymru) | (75) 75 | (75) 83 | (83) 63* | (68) 75 | (68) 77 |
| % y CRhC gyda rhaglenni craidd hunangynhaliol | (90**) 81** | (100**) dag | (90**) dag | (90**) 88* | (90**) 91* |
| Nifer ar Élite Cymru | (120) 138 | (120) 151 | (130) 188 | (140) 167 | (150) 167 |
| Nifer athletwyr Élite Cymru sy'n derbyn cefnogaeth Wyddoniaeth Chwaraeon | (75) 75 | (75) 89 | (85) 105 | (85) 99 | (90) 109 |
| AChC: Nifer yr oriau o ddefnydd gan CRhC | (16,000) 17,318 | (17,500) 24,410 | (36,000) 35,899 | (20,000) 20,095 | (20,000) 19,492 |
| Costau rhedeg net (£000'oedd) | (89) 108 | (123) 106 | (170) 170 | (170) 107 | (170) 158 |
| Plas Menai: Cyfanswm y dyddiau myfyrwyr | (17,715) 16,312 | (17,715) 17,481 | (17,500) 19,843 | (17,500) 20,665 | (20,000) 20,230 |
| Nifer dyfarniadau hyfforddi CRhC | (1,995) 1,938 | (1,939) 2,017 | (2,050) 2,799 | (2,050) 3,221 | (2,200) 3,094 |
| Costau rhedeg net (£000'oedd) | (141) 150 | (141) 168 | (141) 130 | (141) 146 | (141) 138 |

Sylwer: ( ) = Targedau
* y ffigyrau'n gyfystyr â llawn-amser yn awr
** yn berthnasol i gyrff rheoli chwaraeon cystadleuol
dag = dim ar gael
CRhC = Corff Rheoli Cenedlaethol



tudiaeth
hos




### Felodrom Cenedlaethol Cymru Casnewydd

Fis Medi 2003, cwblhawyd Felodrom Cenedlaethol newydd Cymru yng Nghasnewydd. Wedi derbyn arian gan y Loteri, mae'r felodrom yn gyfleuster modern sy'n cynnwys trac beicio 250m, arena chwaraeon dan do, cyfleusterau gwyddoniaeth chwaraeon, ystafell ffitrwydd a chyfleusterau ategol. Ceir hefyd gylched ffordd caëedig, 4.2m o led, y tu allan. Cynhaliwyd yr agoriad swyddogol fis Tachwedd 2003, gan gynnwys cystadleuaeth drac gan Feicio Prydain.

## DARPARU CYFLEUSTERAU O SAFON Y BYD

"MAE PWLL CENEDLAETHOL CYMRU'N GWBL HANFODOL AR GYFER DATBLYGU NOFIO YNG NGHYMRU. BYDD Y PWLL NEWYDD YN EIN GWNEUD YN GYFARTAL Â GWLEDYDD ERAILL YM MHOB CWR O'R BYD."

*Bethan Coole – Nofwraig*

Ers 1992, mae'r Loteri Genedlaethol wedi cyllido llawer o gyfleusterau chwaraeon newydd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau blaenllaw fel y Ganolfan Athletau Dan Do Genedlaethol, Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe, Stadiwm Cwmbran a'r Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Criced. Drwy gyfrwng Cyfalaf SPORTLOT, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod cystadleuwyr a Chyrff Rheoli'n gallu defnyddio cyfleusterau o safon y byd yn lleol ac yn genedlaethol, i gynorthwyo gyda'u cynlluniau perfformio a rhagoriaeth.

Yn ystod y flwyddyn agorwyd Felodrom Cenedlaethol newydd Cymru yng Nghasnewydd gan ddarparu cyfleuster o'r safon uchaf ar gyfer datblygu beicwyr elitaidd yng Nghymru.

Mae arian y Loteri wedi sicrhau bod cystadleuwyr o Gymru'n gallu datblygu eu sgiliau yng Nghymru yn awr yn hytrach na gorfod teithio ymhellach i ffwrdd.





# "GWNAETH PROFFESIYNOLDEB Y STAFF YN Y CYFLEUSTER HWN ARGRAFF DDA IAWN AR Y CYSTADLEUWYR A'R STAFF...DYMA'R PENCAMPWRIAETHAU GORAU HYD YMA."

*Lyndon Williams Cyfarwyddwr Badminton – Undeb Badminton Cymru*
*Pencampwriaethau Badminton y Byd i'r Anabl 2003*

## Athrofa Chwaraeon Cymru


Rhwydwaith o gyfleusterau o safon y byd ac arbenigedd sy'n cefnogi ein hathletwyr mwyaf talentog yw UKSI Cymru. Athrofa Chwaraeon Cymru (AChC) yw canolfan ganolog UKSI Cymru ac o ganlyniad mae ei rôl yn canolbwyntio mwy a mwy ar ei brif fusnes. Credir y bydd y rôl hon yn parhau i esblygu ac y gwneir defnydd ehangach o AChC gan athletwyr elitaidd, a bydd angen mwy o gyfleusterau arbenigol.

- Yr Athrofa yw'r unig ganolfan yn y Deyrnas Gyfunol o hyd gydag achrediad Cymdeithas Olympaidd Prydain fel canolfan hyfforddi ar gyfer tair camp - badminton (2001), jiwdo (2002) a thenis bwrdd (1995).
- Neilltuwyd 19,492 o oriau yn defnyddio'r cyfleusterau i gyrff rheoli, i ddarparu cyfleusterau cenedlaethol ar gyfer ymarfer a chystadlu ar eu cyfer.
- Dyfarnwyd Marc Siarter i'r ganolfan am y trydydd tro gyda'r aseswr yn dweud bod y ganolfan yn "cyflawni ei gwaith o gynorthwyo gyda rhagoriaeth yn y byd chwaraeon yng Nghymru"; bod "y staff yn ymroddedig ac yn frwdfrydig ynghylch amcanion y gwasanaeth" a bod yr "adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol".
- Gyda sgôr 'Canmoliaeth Uchel' o 75% gan QUEST, mae'r Athrofa ymhlith 5% uchaf y 425 o ganolfannau sydd wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Hefyd mae sgoriau'r ymweliadau gan gwsmer dirgel wedi codi cyfartaledd o 5% ar sgoriau'r llynedd ac yn 9% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant yn awr.
- Cynhaliodd yr Athrofa gystadlaethau mawr llwyddiannus iawn, fel Pencampwriaethau Badminton y Byd i'r Anabl, treialon hoci PF, Pencampwriaethau Bocsio Hŷn y Pedair Gwlad, twrnament Cymdeithas Bêl Fasged Cadair Olwyn Prydain Fawr a Chystadleuaeth Snwcer Agored Cymru.
- Daliodd yr Athrofa ei gafael yn ei statws fel Canolfan Gymeradwy Sefydliad yr Achubwyr Bywyd Cymwys, sy'n caniatáu cynnal hyfforddiant ac arholiadau Achubwr Bywyd Pwll Cenedlaethol Cymdeithas Achub Bywyd Frenhinol y DG ar y safle.
- Mae'r Athrofa'n ganolfan hyfforddi genedlaethol ar gyfer 16 camp.

UKSI CYMRU

BRITISH OLYMPIC ASSOCIATION

Awarded for excellence





## Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Plas Menai

Mae gan Blas Menai enw da ledled y DG am ragoriaeth. Yn ddiweddar mae wedi adnewyddu ei dyfarniad 'Marc Siarter' gan y Llywodraeth am ragoriaeth mewn gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae Plas Menai'n parhau â chyswllt agos â datblygiad parhaus Pwllheli fel lleoliad cystadlu allweddol ac mae gan y ganolfan berthynas gynhyrchiol gyda'r Ganolfan Ganŵio Genedlaethol yn y Bala a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Mynydda a Gweithgareddau Awyr Agored ym Mhlas-y-Brenin.

- Yn ystod y flwyddyn, cynigiwyd 20,200 o ddyddiau gweithgarwch i fyfyrwyr, yn cynnwys addysgu hyfforddwyr, hyfedredd personol a rhaglenni chwaraeon dŵr.
- Parhaodd y ganolfan i gynnig yr amrediad ehangaf o weithgareddau chwaraeon dŵr sydd ar gael ym Mhrydain, gan ddenu cyfranogwyr o bob cwr o Gymru, gweddill Prydain a thu hwnt;
- Cafwyd rhaglenni hyfforddi hyfforddwyr hirdymor newydd, yn cynnwys rhaglenni iotfeistr proffesiynol.
- Mae staff y ganolfan wedi gwneud cyfraniad sylweddol at raglenni Hwylio Cymru ac wedi cefnogi hyfforddwyr, nes bod dau forwr o Gymru wedi dod yn bencampwyr iau ac ieuenctid y byd a nifer o forwyr eraill wedi gwneud yn anrhydeddus yn y byd hwylio ym Mhrydain.
- Yn ystod y flwyddyn, cafodd y ganolfan ei harchwilio eto gan yr Awdurdod Trwyddedu Gweithgarwch Antur, gan Fwrdd Croeso Cymru, gan y Gymdeithas Iotio Frenhinol, Cymdeithas Ganŵio Cymru a'r Asiantaeth Forol ac Arfordirol, a'i chanfod yn foddhaol.

UKSI CYMRU

Awarded for excellence

## Hyfforddiant

Ar lefel genedlaethol, mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n gweithio'n agos gyda chyrff rheoli chwaraeon cenedlaethol, SportsCoach UK a Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer hyfforddwyr. Mae hefyd yn chwarae rôl ganolog yn y gwaith o weithredu polisïau cenedlaethol ar lefel ranbarthol a lleol drwy gefnogi mentrau eraill sy'n gysylltiedig â datblygu clybiau.

Drwy gyfrwng Coach Cymru, mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu hyfforddwyr i ddiwallu anghenion chwaraeon ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Yn 2003/4, gwnaed dyfarniadau'n uniongyrchol i 21 o gyrff rheoli chwaraeon. Roedd maint y dyfarniadau'n amrywio o £2,194 i £180,000. Cafodd arian ar gyfer penodi 21 o hyfforddwyr llawn-amser ei ymrwymo am gyfnod o bedair blynedd. Darperir cyllid ar gyfer hyfforddi, cefnogi a chyflogi hyfforddwyr gyda'r bwriad o ddarparu hyfforddiant o safon ar gyfer sgwadiau cenedlaethol. Ceir rhestr lawn o'r hyfforddwyr a gefnogir yn Rhan 2 o'r adroddiad.

**Jamie Baulch** oedd un o aelodau cyntaf erioed Élite Cymru ac mae wedi cynrychioli Prydain Fawr a Chymru ar y lefel uchaf. Yn 1996, enillodd Jamie fedal arian i Brydain Fawr yn y 4 x 400m yng Ngemau Olympaidd Atlanta. Mae Jamie wedi ennill medalau i Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad hefyd, gan gipio'r arian yn y 4 x 400m ym Manceinion a'r efydd yn yr un gystadleuaeth yn Kuala Lumpur.

“RWY'N TEIMLO'N FALCH IAWN O FOD WEDI BOD YN RHAN O GYNLLUN ÉLITE CYMRU. BU O GYMORTH I MI FOD YN UN O OREUON Y BYD.”

*Jamie Baulch 2004*



## Élite Cymru

Rhaglen a ariennir gan y loteri yw Élite Cymru ac mae wedi'i hadeiladu o amgylch y syniad o ddull 'cystadleuydd ganolog' o weithredu. Diben y cynllun yw helpu i ddarparu cefnogaeth gynhwysfawr i brif gystadleuwyr y wlad, gan eu helpu i gystadlu'n anrhydeddus ar lwyfan y byd. Darperir y canlynol i aelodau Élite Cymru:

- cefnogaeth ariannol;
- cefnogaeth feddygol a gwyddoniaeth chwaraeon;
- cefnogaeth i gryfhau a siapio'r corff;
- cyngor ynghylch gyrfa ac addysg;
- cyfleusterau ar gyfer ymarfer – Cynllun Pasbort Cenedlaethol COP
- cyfleoedd gwaith.

Yn ystod 2003/4, derbyniodd 167 o berfformwyr gefnogaeth ariannol gan Élite Cymru (ceir rhestr lawn o'r cystadleuwyr a gefnogir yn Rhan 2). Hefyd, derbyniodd mwy na 178 o berfformwyr gefnogaeth yrfaol ac addysgol a gwasanaethau gwyddoniaeth chwaraeon a meddygaeth chwaraeon. Mae tri deg pump o aelodau Élite Cymru wedi cael cymorth tuag at eu cynnwys yng Nghynlluniau Perfformio Safon y Byd y DG.

Mae arian y loteri wedi cyfrannu'n uniongyrchol at lawer o'r llwyddiannau isod gan gystadleuwyr Cymru:

ATHLETAU
**Jamie Baulch**
*Medal Aur, Cwpan Ewrop, 4 x 400m. Medal Efydd, Pencampwriaethau'r Byd 400m*

**Tim Benjamin**
*Medal Aur, Cwpan Ewrop, 4 x 400m*

**Matt Elias**
*Medal Aur, Cwpan Ewrop, 4 x 400m*

**Christian Malcolm**
*Medal Arian, Cwpan Ewrop, 200m*

**Hayley Tullett**
*Medal Arian, Cwpan Ewrop, 3,000m. Medal Efydd, Pencampwriaethau'r Byd 1500m*

**Rhys Williams**
*Enillydd, Pencampwriaethau Ieuenctid Ewrop, Clwydi 400m*

BADMINTON
**Kelly Morgan**
*Enillydd, Cystadleuaeth Agored UDA, Senglau'r Merched*

BOWLIO
**John Price**
*Ail, Pencampwriaethau Dan Do y Byd*

BOCSIO
**Kevin Evans**
*Enillydd, Cwpan Aml-Wlad Tammer*

**Darren Edwards a Matthew Edmond**
*Efydd, Cwpan Aml-Wlad Tammer*

BEICIO
**Nicole Cooke**
*Enillydd, Rasio Ffordd, Cwpan Merched Hŷn y Byd*

**Geraint Thomas**
*Ail x 2, Pencampwriaethau Trac Iau y Byd, Trydydd x 2, Pencampwriaethau Trac Iau y Byd*

ANABLEDD – ATHLETAU
**Tracy Hinton**
*Enillydd, Gemau IBSA y Byd, 800m a 400m*

**Tanni Grey-Thompson**
*Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC, 100m, 200m, 400m*

**Lloyd Upstell**
*Ail, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC, 200m*





## Partneriaethau Masnachol Élite Cymru

Mae partneriaethau masnachol yn rhan bwysig o strategaeth hyrwyddo Élite Cymru. Mae'r partneriaethau hyn yn rhoi mwy o werth i'r gefnogaeth a gynigir i gystadleuwyr ac yn ystod 2003 arwyddwyd cytundebau partneriaeth swyddogol gyda dau gwmni a fydd yn darparu cefnogaeth arbenigol i gystadleuwyr.

*Cyflenwr Gwasanaethau MRI Swyddogol*

## Gwyddoniaeth Chwaraeon a Meddygaeth Chwaraeon

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Gwyddoniaeth Chwaraeon a Meddygaeth Chwaraeon yn galluogi Cyrff Rheoli a chystadleuwyr elitaidd i ddefnyddio'r gefnogaeth wyddoniaeth a meddygaeth chwaraeon briodol. Nod y gwasanaeth yw gwella lefel y perfformiadau elitaidd drwy ddarparu cefnogaeth ffisiolegol a seicolegol, cymorth gyda chryfder, cyflyru, maeth a biomecaneg, system o ddadansoddi perfformiad a chymorth meddygaeth chwaraeon i gystadleuwyr unigol a thimau.

*Cyflenwr Gwasanaethau Trin Traed a Biomecanyddol Swyddogol*

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 34 o Gyrff Rheoli a 160 o aelodau o Élite Cymru wedi derbyn cefnogaeth. Darparwyd cefnogaeth faeth ychwanegol i unigolion a sgwadiau o 12 Corff Rheoli.

ANABLEDD – MARCHOGOL
**Nicola Tustain**
*Enillydd x 2, Pencampwriaethau Byd IPC, Gwlad Belg, 3 disgyblaeth mewn Dressage*

ANABLEDD – CODI PŴER
**Emma Brown**
*Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC*

ANABLEDD – NOFIO
**Rhiannon Henry**
*Enillydd, Gemau IBSA y Byd, 100m Pili Pala, 200m, 400m, 800m Dull Rhydd*

**Nyree Lewis**
*Enillydd, Cystadleuaeth Ryngwladol Agored Canada, 200m 1M*

**David Roberts**
*Enillydd, Pencampwriaethau Agored yr Almaen, 100m Dull Rhydd*

ANABLEDD – TENIS BWRDD
**Neil Roberston**
*Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd IPC, Tîm, a Chystadleuaeth Agored Sbaen, Tîm*

FFENSIO
**David Mansour**
*Enillydd, Foil y Dynion, Pencampwriaethau Cenedlaethol H_n Prydain*

GOLFF
**Nigel Edwards**
*Enillydd, Cwpan Walker, PF ac I v UDA*

**Stuart Manley**
*Enillydd, Cwpan Walker, PF ac I v UDA*

**Bradley Dredge**
*Enillydd, Cystadlaeth Ewropeaidd Agored Madeira*

**Rhys Davies**
*Enillydd, Pencampwriaeth Golff Amatur Agored Bechgyn Prydain*

GOLFF MERCHED
**Becky Brewerton**
*Enillydd, Tlws Vagliano, PF ac I Ewrop*

**Anna Highgate**
*Dewiswyd ar gyfer Tîm 200m PF ac Iwerddon*

RHWYFO
**Tom James**
*Medal Efydd, Pencampwriaethau Rhwyfo'r Byd 8 y Dynion*

HWYLIO
**Hannah Mills**
*Pencampwraig Optimist y Byd*

**David Evans**
*Enillydd, 29er, Pencampwriaethau'r Byd*

SNWCER
**David John**
*Enillydd, Pencampwriaethau Ewropeaidd, Senglau'r Dynion*

SBONCEN
**Tegwen Malik**
*Enillydd, Rownd Derfynol Cystadleuaeth Agored Savcor yn y Ffindir*

**David Evans**
*Enillydd, Clasur Qatar*

ACHUB BYWYD SYRFF
**Alisa Cullen**
*Enillydd, Pencampwriaethau Ewrop*

NOFIO
**David Davies**
*Enillydd, Pencampwriaethau Iau Ewrop, 1,500m Dull Rhydd*

TENNIS BWRDD
**Ryan Jenkins**
*Enillydd, Cystadleuaeth Grand Prix Prydain, PF ac I v UDA*

CODI PWYSAU
**Michaela Breeze**
*Medal Efydd, Pencampwriaethau Ewrop, Dosbarth 58kg*

tudiaeth
hos

Drwy gyfrwng y rhaglen Trawiad ar y Galon, gwelwyd bod **Jacqui Stephens** angen cymorth ac mae wedi bod yn mynychu'r dosbarthiadau Iechyd y Galon a drefnir gan Rondda Cynon Taf. Mae'r dosbarthiadau wedi newid ei bywyd yn llwyr – cyn eu mynychu ni allai Jacqui ddringo'r grisiau heb golli ei gwynt.

Nawr mae Jacqui'n mynd i'r gym yn rheolaidd ac mae wedi ymuno â'r dosbarth 'Dim ond Merched a Genethod' yn Nhonyrefail. Mae hefyd yn chwilio am gyfleoedd pellach i fwynhau ei ffordd newydd o fyw'n iach ac egnïol.

"Roeddwn i'n mwynhau cymaint o bethau tra yn yr ysgol a'r coleg ond pan ddois i oddi yno, mi rois i'r gorau i'r ffordd honno o fyw hefyd. Maen nhw'n dweud bod eich bywyd yn dechrau pan 'da chi'n ddeugain a'n ateb i ydi – dim ond os ydach chi'n gadael iddi fod mor hwyr â hynny!"



"MAEN NHW'N DWEUD BOD EICH BYWYD YN DECHRAU PAN 'DA CHI'N DDEUGAIN A DWI'N DWEUD – DIM OND OS YDACH CHI'N GADAEL IDDI FOD MOR HWYR Â HYNNY!"

*Jacqui Stephens, Tonyrefail*

## CHWARAEON I BAWB



"MAE 'DRINGO'N UWCH' YN ARENWI'R GRWPIAU LLEIAF EGNÏOL YNG NGHYMRU: POBL DDIFREINTIEDIG YN GYMDEITHASOL; MERCHED; POBL O GYMUNEDAU O LEIAFRIFOEDD ETHNIG; DYNION CANOL OED; POBL GYDA CHYFLYRAU CLINIGOL; POBL ANABL A PHOBL HŶN. YR UNION GRWPIAU HYN FYDDAI'N ELWA FWYAF O WEITHGARWCH CORFFOROL."

*'Dringo'n Uwch' – Gorffennaf 2003*

### Merched a Genethod mewn Chwaraeon

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi gwneud ymrwymiad mawr i neilltuo £500,000 o gyllid SPORTLOT yn benodol ar gyfer cefnogi datblygiad chwaraeon merched a genethod. Dosberthir yr arian hwn i sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n gallu creu mwy o gyfleoedd mewn chwaraeon i ferched a genethod. Ar hyn o bryd mae dwy fenter yn canolbwyntio ar chwaraeon merched a genethod:

- **Her y Canolfannau Hamdden:** cynllun a lansiwyd yn 2003 ac yn darparu cyfleoedd newydd i ferched a genethod. Y diben yw annog rheolwyr canolfannau hamdden i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer merched a genethod fel eu bod yn gallu cymryd rhan yn eu canolfannau lleol;

- **Hei-Ni:** mae ymgyrch hyrwyddo Hei-Ni'n hybu manteision ffyrdd o fyw egnïol ymhlith merched. Mae gwefan Hei-Ni wedi profi'n hynod lwyddiannus, gyda 305,000 o bobl wedi ymweld â hi yn ystod y flwyddyn gyntaf. Cafwyd mwy na 7,400 o gentimedrau o sylw yng ngholofnau'r wasg i chwaraeon merched yn sgil yr ymgyrch. Datblygwyd sawl partneriaeth lwyddiannus hefyd gyda sefydliadau iechyd fel Mudiad Calon Prydain, y Gymdeithas Strôc ac Ymchwil Cancr y DG. Mae cyrff rheoli chwaraeon ac Awdurdodau Unedol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer cymryd rhan ar gael ar gyfer bodloni'r diddordeb a grëir. Bydd gwerthusiad parhaus o'r ymgyrch yn monitro ymwybyddiaeth y cyhoedd ohoni.

## Cynnwys yn Gymdeithasol

Yn unol â Rhaglenni Cynnwys yn Gymdeithasol y Llywodraeth ar gyfer Cymru, mae cynlluniau cyllido fel Cyfalaf SPORTLOT, y Gist Gymunedol, Sportsmatch Cymru a'r cynllun Mân-Grantiau'n sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n hyrwyddo dull aml-asiantaeth o weithredu wrth gynnwys yn gymdeithasol. Gall chwaraeon fod yn arf gwerthfawr ar gyfer ailintegreiddio pobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol i weithgareddau cymunedol ac mae cynnwys yn gymdeithasol yn cael ystyriaeth flaenllaw yn yr holl benderfyniadau cyllido. Nod y Cyngor yw annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau sy'n gwella'n sylweddol y cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael i gymunedau a grwpiau lleol sydd wedi'u heithrio.

Defnyddiwyd y gronfa Cynnwys yn Gymdeithasol drwy Chwaraeon, a sefydlwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru yn 1999, i gefnogi prosiectau chwaraeon ar gyfer pobl ieuainc mewn ardaloedd dan anfantais yn economaidd. Mae mwy na £5 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.



Astudiaeth Achos

### Clwb Pêl Droed Teigrod Port Talbot

Defnyddiwyd grant gwerth £719 gan y Gist Gymunedol i brynu cit pêl droed, offer a chit cymorth cyntaf ac i anfon unigolyn ar gwrs hyfforddi er mwyn sefydlu tîm newydd yng nghynghrair bêl droed Sul y Sebra.

Er bod aelodau'r tîm newydd o gefndir Bangladeshi yn bennaf, roedd yn croesawu aelodau o bob cefndir gan ganolbwyntio ar hybu integreiddio yng nghymuned Port Tablot drwy gyfrwng pêl droed.

## Cymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig

Cred Cyngor Chwaraeon Cymru bod darparu cyfleoedd cyfartal i leiafrifoedd ethnig yn rhan hanfodol o'r agenda cynnwys yn gymdeithasol. Mae'r Cyngor yn annog sefydliadau partner i gynnwys egwyddorion cyfle cyfartal drwy gyfrwng ei bolisïau a thrwy gyfrwng gofynion cyllido cynlluniau. Mae cyfranogiad lleiafrifoedd ethnig mewn cynlluniau cyllido'n cael ei fonitro'n rheolaidd ac mae'r Cyngor yn defnyddio Polisi Cyfleoedd Cyfartal gan ddatgan ei bod yn ofynnol i bob cyfleuster fod ar agor i bawb.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid, fel y Comisiwn ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol a'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol, er mwyn sicrhau bod lleiafrifoedd ethnig yn cael cyfleoedd chwaraeon. Mae Cynllun Cydraddoldeb Hiliol wedi cael ei gyhoeddi yn awr fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i'r maes gwaith hwn. Mae'r Cyngor wedi neilltuo cyllideb a ariennir gan y loteri i gefnogi gwaith yn y maes hwn.

| | Derbyniwyd | Cyllidwyd |
|---|---|---|
| **Ceisiadau cyllido gan grwpiau lleiafrifol** | **3** | **3** |
| | Derbyniwyd | Penodwyd |
| **Ceisiadau am swyddi gan leiafrifoedd ethnig** | **10** | **1** |




## Clybiau Bechgyn a Genethod Cymru

Mae'r Cyngor wedi llunio partneriaeth gyda Chlybiau Bechgyn a Genethod Cymru i gyflogi gweithwyr datblygu lleol mewn ardaloedd ym Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Amcan y swyddi hyn yw cryfhau'r gwaith o gyflwyno chwaraeon yn y gymuned drwy gyfrwng y rhwydwaith o Glybiau Bechgyn a Genethod, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig, gan roi sylw i ddarparu cyfleoedd newydd ac ychwanegol i enethod. Mae'r Cyngor yn cysylltu'r gwaith a wneir gan y Clybiau Bechgyn a Genethod gyda strategaethau ieuenctid a chwaraeon eraill.

## Partneriaethau

Er mwyn sicrhau lefelau iach o gymryd rhan, a llwyddiant mewn chwaraeon, fel a ragwelir yn 'Dringo'n Uwch', bydd raid wrth gyfraniad gan amrywiaeth eang o bartneriaid.

Mae gweithio drwy bartneriaeth yn allweddol i'r nod o sicrhau mwy o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Fel asiantaeth genedlaethol, mae'r Cyngor yn dibynnu ar ein partneriaid ar lefel genedlaethol a lleol i greu newid. Mae'r dull modern o ddatblygu polisi'n tueddu i ganolbwyntio ar agendâu eang ag iddynt groes-doriad helaeth, fel iechyd a lles, datblygiad cynaladwy, cynnwys yn gymdeithasol, sicrhau lle blaenllaw i'r iaith Gymraeg a chyfleoedd cyfartal. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o bartneriaethau strategol ar lefel genedlaethol a lleol ac mae ein staff llinell flaen wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid traddodiadol a newydd er mwyn cyrraedd nodau cyffredin.

"MAE'R IAITH GYMRAEG YN RHAN HANFODOL A PHARHAUS O HANES, DIWYLLIANT A FFABRIG CYMDEITHASOL EIN CENEDL."

*Rhodri Morgan AC Prif Weinidog*
*Iaith Pawb – 2003*

## Rhoi Lle Blaenllaw i'r Iaith Gymraeg

Ers 1998, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ei waith cyhoeddus o ddydd i ddydd yng Nghymru. Yn unol â strategaeth 'Iaith Pawb' Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd yn 2003, mae'r Cyngor wedi arenwi nodau strategol ar gyfer datblygu'r iaith, yn hytrach na dim ond adrodd yn ôl yn flynyddol ar gyflawniadau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol.

Cyhoeddwyd dogfen 'Prif Lif' gyda chefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2003, yn manylu ynghylch y nodau strategol allweddol ar gyfer y ddarpariaeth ieithyddol ym

mlwyddyn ariannol 2004/5 a thu hwnt. Y nod yw ategu ac nid cymryd lle'r egwyddorion a'r prosesau dwyieithog sydd eisoes wedi'u cyhoeddi yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.

## Gwasanaethau'r Cwsmer

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru'n ymroddedig i gyflwyno gwasanaeth o safon uchel i'w gwsmeriaid. Er mwyn gweithredu egwyddorion Siarter y Dinesydd a sicrhau gwelliannau parhaus gan Gyngor Chwaraeon Cymru a'r ddwy ganolfan genedlaethol, gosodir targedau maincnodi ystyrlon, llawn her ar gyfer dangosyddion perfformiad gwasanaethau'r cwsmer. Mae'r targedau'n cael eu monitro'n fisol ac arddangosir y canlyniadau'n gyhoeddus yn y ddwy ganolfan genedlaethol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r meysydd hanfodol wedi cydymffurfio'n gyson o fewn 5% i'r targedau.

## Crynodeb o'r Cynllun Corfforaethol – 2005-2007

Cyhoeddir Cynllun Corfforaethol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer 2005-2007 ar adeg o newid mawr, gyda Strategaeth 'Dringo'n Uwch' Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod cyfeiriad strategol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Mae 'Dringo'n Uwch' yn creu **disgwyliadau llawer ehangach** ar gyfer ariannu chwaraeon a gweithgarwch corfforol gydag arian cyhoeddus yng nghyd-destun agenda strategol y Cynulliad a pholisïau strategol eraill ar gyfer **iechyd, pobl hŷn, cynnwys yn gymdeithasol, etc.**

Rydym felly wedi ailasesu cyfraniad ein gwaith presennol yn erbyn yr agenda newydd, i **adeiladu ar gryfderau** ein gweithgareddau llwyddiannus fel Campau'r Ddraig ac i arenwi rhaglenni all wynebu a bodloni her y cyfeiriad newydd.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi arenwi defnyddiau eraill ar gyfer y cyllid presennol ac, yn fwy arwyddocaol, mae'n cynnig amrywiaeth o **gyfleoedd newydd** er mwyn chwarae ei ran yn y gwaith o atal lefelau gweithgarwch rhag gostwng ac atal gordewdra cynyddol.

Bydd ein nodau strategol cyfredol ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon yn cael eu hehangu i ganolbwyntio ar y targedau a dderbynnir yn genedlaethol ar gyfer **cyflwyno manteision iechyd** gweithgarwch corfforol o **5x30** (pum achlysur o 30 munud o leiaf o weithgarwch corfforol cymedrol yr wythnos ar gyfer oedolion a **5x60** ar gyfer plant).



**Ymhlith y bwriadau dyfeisgar mae:**

- troi Campau'r Ddraig ar gyfer ysgolion cynradd yn Gymorth Grant ac ymestyn y rhaglen i gynnwys plant ysgolion uwchradd;
- datblygu menter 'Nofio Am Ddim' y Cynulliad a'i hehangu i gynnwys pobl hŷn;
- defnyddio'r awyr agored a'r cyfleusterau naturiol ar garreg ein drws i'r eithaf;
- ffocws newydd ar gynnwys yn gymdeithasol i sicrhau mynediad i bawb;
- gwaith partneriaeth priodol gyda sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch;
- rhaglenni ymchwil i ddeall yn well y mecanweithiau newid sydd eu hangen er mwyn newid agweddau a chyflwyno manteision iechyd;
- datblygu'r adnoddau a'r gwirfoddolwyr i gyflwyno ar lefel gymunedol leol;
- creu llwybrau cynnydd ar gyfer y rhai sy'n dymuno cynrychioli Cymru ar y llwyfan chwaraeon rhyngwladol. Cynllun Élite Cymru a chynlluniau hyfforddi newydd;
- adnewyddu Athrofa Chwaraeon Cymru;
- cynllun marchnata cymdeithasol hirdymor cadarn i newid agweddau tuag at weithgarwch corfforol a datblygu diwylliant egnïol am oes.

Er mwyn cyflawni hyn bydd raid i ni newid ein rôl o'r ffocws presennol o roi grantiau a rheoli i **rôl asiantaeth ddatblygiadol** er mwyn sicrhau cymaint ag y bo modd o fanteison o'r cyllid.

Ni all y Cyngor weithio ar ei ben ei hun a bydd partneriaethau newydd a phriodol yn hanfodol. Byddwn yn sefydlu ein rôl yn eglur fel **Adfocatiaeth, Marchnata ac Ymyrryd** i gydnabod a chefnogi eraill sydd mewn gwell sefyllfa i gymryd y rôl arweiniol ac i ddarparu man canolog pan fo angen datblygu a chyllido rhaglenni.

Cyngor Chwaraeon Cymru
Adroddiad Blynyddol 2003/4

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU



## Crynodeb o'r Datganiad Ariannol

Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn darparu crynodeb o gyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004. Nid ydynt yn cynnwys digon o wybodaeth i'n galluogi i ddeall yn llawn ganlyniadau a chyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Am wybodaeth bellach, dylid edrych yn y cyfrifon blynyddol llawn ac ar adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny. Gellir cael copi o'r cyfrifon wedi'u harchwilio, sy'n cynnwys yr wybodaeth fanwl sy'n ofynnol yn gyfreithiol a than y canllawiau arfer orau, yn rhad ac am ddim gan y Pennaeth Cyllid yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.

## Cefndir Statudol

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru gan Siarter Brenhinol ar 4 Chwefror 1972 gyda'r nod o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol a'r arfer o gymryd rhan ynddynt ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i ariennir gan gymorth grant blynyddol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a thrwy incwm a grëir o'i weithgareddau.

## Adolygu'r Flwyddyn a Datblygiadau'r Dyfodol

Roedd y diffyg gweithredu ar gyfer y flwyddyn yn £796,000 (2002/2003 £1,030,000) wedi ystyried y cymorth grant o £8,707,000 (2002/03 £8,492,000) a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ac a ddefnyddiwyd at ddibenion refeniw. Defnyddiwyd elfen ychwanegol o gymorth grant, yn dod i £334,000 (2002/03 £196,000), i brynu asedion sefydlog diriaethol. Trosglwyddwyd y gwarged cadw o £92,000 (2002/03 £173,000) ar gyfer y flwyddyn i gronfeydd cadw. Prif amcanion y Cyngor yw mynd ar ôl ac ymgymryd â pholisïau a chynlluniau sy'n ceisio cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden gorfforol ac, yn gyffredinol, dosbarthu gwybodaeth a hybu gwybodaeth am chwaraeon a hamdden gorfforol yng Nghymru. Yn ogystal â'r gwaith a wnaed yn uniongyrchol gan ei staff yn ystod y flwyddyn er mwyn cyrraedd yr amcanion hyn, darparodd y Cyngor hefyd gyfleusterau drwy gyfrwng Athrofa Chwaraeon Cymru a Chanolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Plas MENAI a dyfarnodd grantiau i sefydliadau chwaraeon lleol a chenedlaethol.



Mae Deddf y Loteri Genedlaethol 1993 (fel a ddiwygiwyd) yn enwebu Cyngor Chwaraeon Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian a grëir gan y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Fis Tachwedd 1994, lansiodd y Cyngor Gronfa Loteri Chwaraeon Cymru, drwy greu hunaniaeth nodweddiadol ac arbennig iddi: SPORTLOT. Gellir cael hyd i wybodaeth bellach ynghylch gweithgareddau'r Cyngor ac unrhyw ddatblygiadau newydd arwyddocaol mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a chynhwysir canlyniadau SPORTLOT yn y cyfrifon sydd wedi'u paratoi ar wahân ar gyfer y corff hwnnw.

## Aelodau'r Cyngor a'r Ymddiriedolaeth

Rhestrir enwau aelodau Cyngor Chwaraeon Cymru a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 1 o'r adroddiad blynyddol. Mae cofrestr o ddiddordebau'r aelodau ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Cyngor Chwaraeon Cymru yw Ymddiriedolai Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, a reolir gan bwyllgor sy'n cynnwys y Cyngor llawn a:

**Mr G Crimp**
(Cynrychiolydd Cymdeithas Chwaraeon Cymru)

**Mr B George** (ymddeolodd Medi 2003)
(Cynrychiolydd Cymdeithas Chwaraeon Cymru)

## DATGANIAD ARCHWILIWR CYFFREDINOL CYMRU I GYNGOR CHWARAEON CYMRU

### Archwilwyr

Roedd adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru ar y datganiadau ariannol blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 yn ddiamwys.

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r datganiad ariannol ar dudalennau 43-45, a baratowyd ar ffurf ac ar sail fel a nodir yn nodyn 1 ar dudalen 44.

### Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Cyfrifoldeb y Cyngor a'r Prif Weithredwr yw'r crynodeb o'r datganiad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw mynegi fy marn am y gwaith o'i baratoi a'i gysondeb gyda'r datganiad ariannol llawn a'r rhagair. Rwyf hefyd yn darllen yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol gyda'r crynodeb o'r datganiadau ariannol.

### Sail y Farn

Rwyf wedi gwneud fy ngwaith yn unol â Bwletin 1999/6 – 'Datganiad yr archwilwyr ar y crynodeb o'r datganiad ariannol' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer ei ddefnyddio yn y Deyrnas Gyfunol.

### Barn

Yn fy marn i, mae'r crynodeb o'r datganiad ariannol yn gyson â'r datagniadau ariannol llawn a rhagair Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 ac mae wedi'i baratoi'n briodol ar y sail a nodir yn nodyn 1 o grynodeb y datganiad ariannol.

**John Bourn**
Archwiliwr Cyffredinol Cymru
13 Gorffennaf 2004

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd CF10 3DP





## CRYNODEB O'R CYFRIF INCWM A GWARIANT CYFNERTHEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2004

| | 2003/2004 £000 | 2002/2003 £000 |
|---|---|---|
| **INCWM** | | |
| Cymorth Grant | **8,707** | 8,492 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | **2,810** | 2,852 |
| AG a Chwaraeon Ysgol | **1,000** | 360 |
| Incwm Gweithredu Arall | **566** | 677 |
| | **13,083** | 12,381 |
| **GWARIANT** | | |
| Datblygiad Chwaraeon | **4,932** | 5,084 |
| AG a Chwaraeon Ysgol | **1,000** | 343 |
| Sportsmatch | **452** | 449 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | **3,454** | 3,442 |
| Gwariant Arall | **4,041** | 4,093 |
| | **13,879** | 13,411 |
| **Diffyg Gweithredu** | **(796)** | (1,030) |
| Gwarged wedi Gwaredu Asedion Sefydlog Diriaethol | **4** | 3 |
| Llog Derbyniadwy | **6** | 7 |
| Diffyg Cyn Trethiant | **(786)** | (1,020) |
| Trethiant | **(1)** | (1) |
| **NEILLTUADAU ARIAN** | | |
| Addasiad ar gyfer Cost Dybiannol y Cyfalaf | **588** | 952 |
| Trosglwyddo o'r Gronfa Ailwerthuso | **291** | 242 |
| Gwarged/(Diffyg) Cadw ar gyfer y Flwyddyn Ariannol | **92** | 173 |
| Tâl y Cadeirydd: | | |
| Mr Gareth Davies - hyd at 30 Medi 2003 | **17** | 34 |
| Mr Phil Carling - 1 Chwefror tan 31 Mawrth 2004 | **6** | - |
| Tâl y Prif Weithredwr: | | |
| Dr Huw Jones | **70** | 64 |
| Tâl yr uwch-staff eraill | **165** | 195 |

Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd Mr Gareth Davies fel Cadeirydd y Cyngor ar 30 Medi 2003 ac yn ei le daeth Mr Phil Carling ar 1 Chwefror 2004. Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2003 a 31 Ionawr 2004, roedd swydd y Cadeirydd yn cael ei llenwi dros dro gan yr Is-Gadeirydd, Anne Ellis, ac roedd yn derbyn cyflog o £11,168 am hynny. Ar gyfer y cyfnod tan 30 Medi 2003 roedd Mr Gareth Davies yn derbyn cyflog gros o £17,130 (2002/2003 £33,504) a mantais drethadwy o £0 (2002/2003 £906). Ar gyfer y cyfnod o 1 Chwefror 2004 tan 31 Mawrth 2004, derbyniodd Mr Phil Carling gyflog gros o £5,710. Roedd cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog gros o £61,464 (2002/2003 £60,108) a bonws heb ei gysoni o £4,335 (2002/2003 £4,229), heb unrhyw fanteision trethadwy'n cronni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Cafodd bonws heb ei gysoni 2002/2003 ei dalu flwyddyn am yn ôl gan wneud y taliad union i'r Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn yn £70,028 (2002/2003 £63,940). Mae ganddo gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifo am faterion y loteri a chafodd 28% (2002/2003 28%) o'i gyflog ei gymryd o gyfrif dosbarthu'r loteri. Dychwelodd y Cyfarwyddwr Cyllid i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'i secondiad ar 30 Mehefin 2003. Dim ond cyflog gros mae'r uwch-staff eraill yn ei dderbyn.

# CRYNODEB O'R FANTOLEN GYFNERTHEDIG
FEL AR 31 MAWRTH 2004

| | 2004 £000 | 2003 £000 |
|---|---|---|
| **ASEDION SEFYDLOG** | **17,197** | 15,817 |
| **ASEDION CYFREDOL** | **1,322** | 923 |
| **CREDYDWYR** (symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn) | **(944)** | (639) |
| **ASEDION CYFREDOL NET** | **378** | 284 |
| **CREDYDWYR** (symiau'n dod yn ddyledus wedi mwy na blwyddyn) | **(21)** | (19) |
| **CYFANSWM ASEDION LLAI CYFRIFOLDEBAU** | **17,554** | 16,082 |
| **ARIANNWYD GAN** | | |
| Cyfalaf a Chronfeydd Cadw | **17,554** | 16,082 |
| | **17,554** | 16,082 |

# CRYNODEB O'R DATGANIAD LLIF ARIAN CYFNERTHEDIG
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2004

| | 2004 £000 | 2003 £000 |
|---|---|---|
| All-lif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | **97** | (127) |
| Adenillion ar Fuddsoddiad a Gwasanaethu Cyllid | **6** | 7 |
| Treth Gorfforaeth a Dalwyd | **(1)** | (2) |
| Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol | **(322)** | (174) |
| All-lif Arian Net cyn Cyllido | **(220)** | (296) |
| Cyllido | **334** | 196 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Arian Parod | **114** | (100) |

**Swyddog Cyfrifo: Dr H G Jones**
6 Gorffennaf 2004

**Nodyn 1:** Paratowyd y datganiad ariannol cryno hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 1985, gan roi ystyriaeth i Reoliadau Cwmnïau (Crynodeb o Ddatganiad Ariannol) 1995 (SI 1995/2092) cyn belled ag y maent yn berthnasol.

**Nodyn 2:** Gwnaed datganiad llawn ynghylch Trafodion Cysylltiedig yn unol â Safon Cofnodion Ariannol 8, a manylir yn eu cylch yn y datganiadau ariannol llawn sydd ar gael ar gais.

Cyngor Chwaraeon Cymru
Adroddiad Blynyddol 2003/4



# CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI (SPORTLOT)

## Crynodeb o'r Datganiad Ariannol

Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn darparu crynodeb o'r cyfrifon a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 yn unol ag a35(5) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel a ddiwygiwyd). Roedd y Ddeddf yn enwebu Cyngor Chwaraeon Cymru fel y corff sy'n gyfrifol am ddosbarthu arian a geir gan y Loteri i chwaraeon yng Nghymru. Gweithredir dyletswyddau SPORTLOT yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn unol ag Adran 26(1) o Ddeddf 1993.

Nid yw'r crynodeb hwn o'r datganiad ariannol yn cynnwys digon o wybodaeth i'n galluogi i ddeall yn llawn ganlyniadau a chyflwr materion SPORTLOT. Am wybodaeth bellach , dylid edrych yn y cyfrifon blynyddol llawn ac ar adroddiad yr archwilwyr ar y cyfrifon hynny. Gellir cael copi o'r cyfrifon wedi'u harchwilio, sydd wedi'u cyflwyno ger bron y Senedd ac sy'n cynnwys yr wybodaeth fanwl sy'n ofynnol yn gyfreithiol a than y canllawiau arfer orau, yn rhad ac am ddim gan y Pennaeth Cyllid yng Ngerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.

## Adolygu'r Flwyddyn a Datblygiadau'r Dyfodol

### Canlyniadau Ariannol

Roedd y gostyngiad mewn arian, wedi rhoi ystyriaeth i'r costau i gyd, yn dod i £15,677,000 (2002/2003 – gostyngiad o £7,440,000). Trosglwyddwyd y swm yma i'r cronfeydd cadw.

### Grantiau Cyfalaf

Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan a gwella perfformiadau mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yw prif nod y gronfa yn ei gweithgareddau. Cyflwynodd Cyngor Chwaraeon Cymru ei gynlluniau ar gyfer dosbarthu arian y Loteri i brosiectau cyfalaf fis Medi 1994. Defnyddir proses ymgeisio dau gam ar gyfer pob cais cyfalaf. Mae cam cyntaf y cais yn galluogi i'r ffocws fod ar y manteision ychwanegol i chwaraeon ac ar yr amcanion, y nodau a'r rheolaeth arfaethedig perthnasol i'r prosiect. Mae'r ymgeiswyr yn ceisio cymeradwyaeth dros dro i'w cynllun cyn buddsoddi fel y bo angen er mwyn cyflwyno'r cais llawn yng ngham dau.

Gwnaed taliadau grant cyfalaf yn dod i gyfanswm o £16,591,000 (£13,889,000 yn 2002/2003) yn ystod y flwyddyn. Gostyngodd y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer ymrwymiadau caled (cytundebau wedi'u harwyddo) parthed grantiau cyfalaf £2.3 miliwn yn 2003/2004 o'i gymharu â gostyngiad o £0.164 miliwn yn 2002/2003.

## CRYNODEB O'R DATGANIAD LLIF ARIAN CYFNERTHEDIG
## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2004

**Grantiau Refeniw**

Fis Ebrill 1996, diwygiwyd cyfarwyddiadau'r Loteri Genedlaethol i ganiatáu arian refeniw. Roedd y cyfarwyddiadau adolygedig yn dweud yn benodol bod raid i Gyngor Chwaraeon Cymru roi ystyriaeth i:

1) pa mor ddymunol yw datblygu talent a sgiliau, yn arbennig ymhlith pobl ieuainc
2) ariannu cystadlaethau chwaraeon rhyngwladol mawr.

Roedd y taliadau grantiau refeniw a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i £4,262,000 (2002/2003 - £4,113,000). Roedd y swm yma'n cynnwys gwariant ar y cynlluniau a ganlyn:

| Rhaglen | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| Élite Cymru | **954** | 991 |
| Coach Cymru | **805** | 799 |
| Campau'r Ddraig | **949** | 943 |
| Chwaraeon Anabledd Cymru | **360** | 287 |
| Y Gist Gymunedol | **1,067** | 1,077 |
| Merched a Genethod | **127** | 16 |
| | **4,262** | 4,113 |

Mae swm y Gist Gymunedol yn cynnwys £69,000 a dalwyd mewn perthynas â chostau gweinyddu'r awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r cynllun grantiau ar lefel leol.

Cyngor Chwaraeon Cymru
Adroddiad Blynyddol 2003/4



## AELODAU PANELAU SPORTLOT

Mae Siarter Brenhinol y Cyngor yn ei alluogi i benodi pwyllgorau neu banelau i ymarfer unrhyw rai o'i swyddogaethau. At ddibenion SPORTLOT, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi penodi pum panel a gaderir bob un gan aelod o'r Cyngor.

Mae'r Panel Cenedlaethol yn ystyried pob cais am brosiectau cyfalaf sy'n costio mwy na £250,000 yn ogystal â phrosiectau o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'r panelau rhanbarthol yn ystyried ceisiadau ar gyfer pob prosiect cyfalaf arall. Mae'r panel Rhagoriaeth Cenedlaethol yn ystyried ceisiadau gan unigolion a chyrff rheoli am arian refeniw.

Rhestrir aelodau'r panelau isod:

| Cenedlaethol | Y De Ddwyrain |
|---|---|
| * Miss Anne Ellis MBE | * Mr Clive Thomas |
| Ms Helen Croft **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** | Mr Graham Down **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** |
| * Y Cynghorydd Keith Evans | Mrs Wendy Groves **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** |
| Mr Paul Griffiths **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** | Mrs Sarah Powell **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| * Mr Ieuan Lewis | Miss Sally Church **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| * Mr Philip Lloyd Jones | Mr Raymond Davies **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| Mr Bob Lowe **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** | Mr Michael Harvey **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| Mr Berwyn Price **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** | Mrs Barbara Beedham **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| Mr Aled Roberts **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** | Mr Frank Rees **(ymddiswyddodd 31 Mawrth 2004)** |
| * Mr Clive Thomas | Mr Iain Varah **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** |
| Miss Helen Phillips **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** | * Mrs Christine Gittoes **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| Mr Haydn Ames **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** | |
| Dr Nicky Bolton **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** | |
| Mr Russell Ward **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** | |

| Y De Orllewin | Y Gogledd |
|---|---|
| * Mr David Davies | * Mr Philip Lloyd Jones |
| Mr Alun Wyn Bevan **(ymddiswyddodd 31 Mawrth 2004)** | Y Cynghorydd R Mark Davies **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** |
| Mr John Deason **(ailbenodwyd 1 Ebrill 2001)** | Mrs Sally R Lloyd Davies **(ailbenodwyd 1 Ebrill 2001)** |
| Mr David Evans **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** | Ms Ann Gosse **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** |
| Ms Sandra Hayes **(ymddiswyddodd 31 Mawrth 2004)** | Mr Mike Hornby **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** |
| Mr Paul Hinder **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** | Mr Gareth Hughes **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| Ms Gillian Hopley **(penodwyd 1 Ebrill 2002)** | Mr David James **(penodwyd 1 Ebrill 2001)** |
| Ms Deborah John **(ailbenodwyd 1 Ebrill 2001)** | * Mr Ieuan Lewis |
| Mr Andi Morgan **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** | Miss Sian Mai Jones **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| * Mr P Huw Thomas | Mr Alan Watkin **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** |
| * Ms Susan Williams | |
| Mr Roy Bergiers **(penodwyd 1 Ebrill 2003)** | |
| * Mr Ieuan Lewis | |

| Rhagoriaeth Cenedlaethol | |
|---|---|
| * Miss Anne Ellis MBE | Mr Rhodri Davies |
| Ms Tanni Grey-Thompson MBE | Mr John Hinchliffe |
| Mr Nicky Piper | Mr Berwyn Price |
| Mr Mark Tattersall | * Mr Robert Turner |
| Mr Nigel Walker | Mr Adrian Davies |
| * Mr Lynn Davies MBE | * Miss Lynette Harries |

*Aelod o Gyngor Chwaraeon Cymru

# ARCHWILWYR

Roedd adroddiad y Goruchwyliwr a'r Archwiliwr Cyffredinol ar y datganiadau ariannol blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 yn ddiamwys.

## DATGANIAD Y GORUCHWYLIWR A'R ARCHWILIWR CYFFREDINOL I'R SENEDD AC I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r datganiad ariannol ar dudalennau 49-51, a baratowyd ar ffurf ac ar sail fel a nodir yn nodyn 1 ar dudalen 51.

### Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Cyfrifoldeb y Cyngor a'r Prif Weithredwr yw'r crynodeb o'r datganiad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw mynegi i chi fy marn am y gwaith o'i baratoi a'i gysondeb gyda'r datganiad ariannol llawn a'r rhagair. Rwyf hefyd yn darllen yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau sylfaenol gyda'r crynodeb o'r datganiadau ariannol.

### Sail y Farn

Rwyf wedi gwneud fy ngwaith yn unol â Bwletin 1999/6 – 'Datganiad yr archwilwyr ar y crynodeb o'r datganiad ariannol' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer ei ddefnyddio yn y Deyrnas Gyfunol.

### Barn

Yn fy marn i, mae'r crynodeb o'r datganiad ariannol yn gyson â'r datagniadau ariannol llawn a rhagair SPORTLOT ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 ac mae wedi'i baratoi'n briodol ar y sail a nodir yn nodyn 1 o grynodeb y datganiad ariannol.

**John Bourn**
Goruchwyliwr ac Archwiliwr Cyffredinol
13 Gorffennaf 2004

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
3-4 Plas-y-Parc
Caerdydd CF10 3DP





# CRYNODEB O'R CYFRIF INCWM A GWARIANT
## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2004

| | 2003/2004 £000 | 2002/2003 £000 |
|---|---|---|
| **INCWM** | | |
| Elw o'r Loteri | **10,556** | 12,595 |
| Llog Derbyniadwy | **37** | 24 |
| Incwm Arall | **25** | 6 |
| | **10,618** | 12,625 |
| **GWARIANT** | | |
| Grantiau cyfalaf a dalwyd yn ystod y flwyddyn | **16,591** | 13,889 |
| Grantiau refeniw a dalwyd yn ystod y flwyddyn | **4,262** | 4,113 |
| Newid mewn darpariaeth ar gyfer Ymrwymiadau Grant Caled | **3,889** | 759 |
| Costau Staff | **984** | 823 |
| Costau Gweithredol Eraill | **562** | 476 |
| | **26,288** | 20,060 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian cyn trethiant | **(15,670)** | (7,435) |
| Trethiant Taladwy | **(7)** | (5) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian wedi trethiant | **(15,677)** | (7,440) |
| Enillion heb eu gwireddu ar fuddsoddiad yn CDdLG | - | - |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian ar gyfer y flwyddyn | **(15,677)** | (7,440) |
| Balans ar 1 Ebrill | **18,411** | 25,851 |
| Balans ar 31 Mawrth | **2,734** | 18,411 |
| Tâl y Cadeirydd: | | |
| Mr Gareth Davies - hyd at 30 Medi 2003 | **17** | 34 |
| Mr Phil Carling - 1 Chwefror tan 31 Mawrth 2004 | **6** | - |
| Tâl y Prif Weithredwr: | | |
| Dr Huw Jones | **70** | 64 |
| Tâl yr uwch-staff eraill | **165** | 195 |

Yn ystod y flwyddyn, ymddiswyddodd Mr Gareth Davies fel Cadeirydd y Cyngor ar 30 Medi 2003 ac yn ei le daeth Mr Phil Carling ar 1 Chwefror 2004. Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Hydref 2003 a 31 Ionawr 2004, roedd swydd y Cadeirydd yn cael ei llenwi dros dro gan yr Is-Gadeirydd, Anne Ellis, ac roedd yn derbyn cyflog o £11,168 am hynny. Ar gyfer y cyfnod tan 30 Medi 2003 roedd Mr Gareth Davies yn derbyn cyflog gros o £17,130 (2002/2003 £33,504) a mantais drethadwy o £0 (2002/2003 £906). Ar gyfer y cyfnod o 1 Chwefror 2004 tan 31 Mawrth 2004, derbyniodd Mr Phil Carling gyflog gros o £5,710. Roedd cyflog y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog gros o £61,464 (2002/2003 £60,108) a bonws heb ei gysoni o £4,335 (2002/2003 £4,229), heb unrhyw fanteision trethadwy'n cronni yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Cafodd bonws heb ei gysoni 2002/2003 ei dalu flwyddyn am yn ôl gan wneud y taliad union i'r Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn yn £70,028 (2002/2003 £63,940). Mae ganddo gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifo am faterion y loteri a chafodd 28% (2002/2003 28%) o'i gyflog ei gymryd o gyfrif dosbarthu'r loteri. Dychwelodd y Cyfarwyddwr Cyllid i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'i secondiad ar 30 Mehefin 2003. Dim ond cyflog gros mae'r uwch-staff eraill yn ei dderbyn. Nid yw aelodau panelau SPORTLOT yn derbyn unrhyw dâl am eu gwaith.

Cyngor Chwaraeon Cymru
Adroddiad Blynyddol 2003/4



## CRYNODEB O'R FANTOLEN
FEL AR 31 MAWRTH 2004

| | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| **Asedion Cyfredol** | | |
| Dyledwyr | **8** | - |
| Buddsoddiadau – y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | **21,471** | 31,716 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | **-** | 1,492 |
| | **21,479** | 33,208 |
| **Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Darpariaeth ar gyfer Ymrwymiadau Grant Caled | **(13,761)** | (9,409) |
| Credydwyr Eraill | **(292)** | (233) |
| **Asedion Cyfredol Net** | **(14,053)** | (9,642) |
| **Credydwyr: symiau'n dod yn ddyledus wedi mwy na blwyddyn** | | |
| Darpariaeth ar gyfer Ymrwymiadau Grant Caled | **(4,692)** | (5,155) |
| **Cyfanswm Asedion Llai Cyfrifoldebau** | **2,734** | 18,411 |
| **ARIANNWYD GAN:** | | |
| Cyfrif Incwm a Gwariant | **2,734** | 18,411 |



## CRYNODEB O'R DATGANIAD LLIF ARIAN
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2004

| | 2003/04 £000 | 2002/03 £000 |
|---|---|---|
| (All-lif)/mewnlif arian net ar gyfer y flwyddyn | **(1,492)** | 1,450 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod | **(1,492)** | 1,450 |

**Swyddog Cyfrifo: Dr H G Jones**
**6 Gorffennaf 2004**

### Nodiadau

1. Paratowyd y datganiad ariannol cryno hwn yn unol â Deddf Cwmnïau 1985, gan roi ystyriaeth i Reoliadau Cwmnïau (Crynodeb o Ddatganiad Ariannol) 1995 (SI 1995 / 2092) cyn belled ag y maent yn berthnasol.

2. Mae'n ofynnol i aelodau'r Panelau a'r staff ddatgan unrhyw wrthdaro posibl rhwng diddordebau. Ceir manylion am unrhyw drafodion y mae gan yr aelodau a'r staff gysylltiad â hwy ac a ystyrir yn sylfaenol yn y cyfrifon blynyddol llawn ac mae copïau ar gael ar gais.

3. Nid yw'r balans ar 31 Mawrth 2004 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi'i archwilio, gan nad yw'r archwiliad o'r Gronfa yn gyflawn. Bydd unrhyw addasiad a gyfyd yn sgil yr archwiliad hwnnw'n cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon 2004/2005 ac nid oes disgwyl iddynt fod yn sylweddol. Seilir y balans ar ddosbarthu arian y Loteri Genedlaethol fel a nodir yn Neddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel a ddiwygiwyd).